# ECO'R WYDDFA

RHIF 273 RHAGFYR 2000 Pris 40c

**Daw rhifyn y Nadolig o'r Wasg ar Ragfyr 20. Rhifyn arbennig yn cynnwys atodiad yr eisteddfodau lleol.**

# Gwefr o Gyfarfod



*Arwel a'i westeion ar achlysur lansio ei lyfr "Y Stori tu ôl i'r Gân" yn y Mynydd Gwefru, Llanberis.*

**Nos Lun, 20 Tachwedd roedd oriel y Mynydd Gwefru, Llanberis dan ei sang pan ddaeth ugeiniau o bobl ynghyd i gyfarfod lansio hunangofiant Arwel Jones, *Y Stori tu ôl i'r Gân*. Ond nid cyfarfod lansio cyffredin a gawsant ond awr a hanner o adloniant pur, a hynny'n rhad ac am ddim.**

Myrddin Owen, cyfaill oes a chyd-aelod o Hogia'r Wyddfa, a agorodd y noson ac yna darllenodd John Ogwen rannau o'r llyfr gan godi blys ar bawb i'w brynu. Cymerwyd rhan hefyd gan Maureen Rhys, Eirug Wyn, Elwyn Jones, Annette Bryn Parri ynghyd ag eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Peris a Chlychau'r Grug. Ar ran Gwasg Gwynedd, y cyhoeddwyr, cyflwynodd Gerallt Lloyd Owen gopi o'r llyfr i Arwel ac ymatebodd yntau trwy bwysleisio ei ddyled i'w fro a'i phobl.

"Nid sgrifennu amdanaf fy hun fel y cyfryw yr oeddwn i,' meddai, "ond sgrifennu am y gymuned arbennig yma y cefais i'r fraint o fod yn rhan ohoni."

Ac roedd y ffaith fod cynifer o bobl wedi codi allan ar noson mor aeafol yn brawf pendant fod ei gymuned yn falch ohono yntau.

Yr ieuengaf yn y gynulleidfa oedd ei ŵyr a oedd o fewn ychydig ddyddiau i'w ben-blwydd cyntaf, ac meddai Taid, "Diolch i Tomos Meredydd Morgan am atgoffa ei daid bob hyn a hyn fod pethau pwysicach o lawer na hel atgofion, a bod yna ddyfodol!"

Dim ond un ffordd oedd yna i derfynu'r cyfarfod cofiadwy hwn, sef Hogia'r Wyddfa yn canu Hen Bentre Bach Llanbêr a Safwn yn y Bwlch.

*Y Stori tu ôl i'r Gân (Cyfres y Cewri 22); Gwasg Gwynedd; Pris £7.95*


## *Gwasg Gwynedd*

*Cofiwch am ein llyfrau newydd at y 'Dolig*

**Cofio'n ôl**
*(Cyfres y Cewri 21)*
Gruffudd Parry

**Y Stori tu ôl i'r Gân**
*(Cyfres y Cewri 22)*
Arwel Jones

**Pigion y Talwrn**

**Cip ar y Cewri**
Gol. Non ap Emlyn

**Cywion Uffern**
Sonia Edwards

**Llangynog Gynt**
J.D. Lloyd

Cibyn, Caernarfon
(01286) 674486


## Rhedwr Gyda Record Unigryw



Colin Donnelly o Ddinorwig oedd enillydd Tlws Chwaraewr y Flwyddyn, Arfon, yn ddiweddar, a bydd yn cystadlu'n ddiweddarach am y Tlws i Wynedd gyfan. Yn enedigol o Glasgow yn yr Alban, dechreuodd Colin gystadlu'n ifanc, gan ennill Ras Ben Nevis ac yntau'n ddim ond 19 oed, a pharhaodd ei ddiddordeb mewn rasio mynydd a thraws gwlad tra'n gwasanaethu am gyfnod yn yr Awyrlu Brenhinol. Yn ystod y cyfnod hwnnw y daeth i weithio i'r Fali, Môn, a mwynhau rasio ar fynyddoedd Eryri. Bellach mae wedi ei hyfforddi'n nyrs, wedi priodi ag Alison (sydd hefyd yn redwraig), ac yn byw yn Ninorwig gyda'u dau o blant ifanc.

Er fod Colin wedi byw yng Nghymru am ddigon o flynyddoedd i'w alluogi i redeg dros Gymru, mae wedi cadw'n ffyddlon i'r Alban. Yn wir, mae'n dal record unigryw fel rhedwr rhyngwladol i'r wlad honno. Colin yw'r unig redwr yn y byd i gynrychioli ei wlad ym mhob un o Bencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd – cyfanswm o 16 mlynedd di-dor: record a all sefyll am flynyddoedd. Yr hyn sy'n fwy syfrdanol yw fod Colin yn 24 mlwydd oed pan gychwynnwyd ar y gyfres pencampwriaethau hynny. Mae bellach yn 40 oed, ac yn cystadlu mewn categori dynion hŷn, ond mae'n parhau i ennill yn erbyn rhedwyr sydd flynyddoedd yn iau nag ef.

(parhad ar dudalen ôl)

# ECO'R WYDDFA

RHIF 273
RHAGFYR 2000
*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*
*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Golygyddol:**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872390**

**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 675649**

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**
**ARWEL JONES**
**CAE EBONI, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 871274**

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, RHAGFYR 11**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS FERCHER, RHAGFYR 20**

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu A |
|---|---|---|---|---|
| Nadolig | Rhagfyr 11 | Rhagfyr 20 | Ysgol Brynrefail | Y Golygyddion |

31 Marlborough Place
Vaughan Street
Llandudno

Annwyl Olygydd,

Cefais wefr pan welais lun Côr Charles Owen Llanberis a darllen llythyr 'Un o'r teulu', gan fod llun fy mam, sef Lizzie Jane Jones, soprano (wych hefyd) yn eistedd wrth ochr cyfeilydd y côr yn y rhes flaen (ar y chwith wrth edrych ar y llun). Rwy'n credu mai Mr Huxley Thomas oedd y cyfeilydd cyntaf. Roedd wedi dysgu chwarae'r piano ei hun gan fod streic yn y chwarel. Yn ôl y sôn, aeth o ddim yn ei ôl i weithio i'r chwarel. Mi fyddai Mam yn canu darnau mawr y côr wrth fynd o gwmpas ei gwaith ar y ffarm, Llys-y-gwynt, Cwm-y-glo gan fod rhaid canu y darnau heb gopi pan yn cystadlu.

Mae llun o Mam yn Eco'r Wyddfa, Rhifyn 5, Gorffennaf 1976, yng Nghôr Joseph Thomas, Cwm-y-glo yn dair ar ddeg oed. Yr achlysur oedd y côr yn canu yng Nghastell Caernarfon yn seremoni Arwisgiad Edward yr Wythfed yn 1911. Bu Mam farw o'r clefyd Alzheimers a dyna y cyfnod mwyaf trist erioed i ni fel teulu. Cofiaf unwaith pan oedd yr Eisteddfod Genedlaethol ymlaen a hithau yn gwylio y teledu a Chôr yr Eisteddfod yn canu un o ddarnau clasurol adnabyddus a Mam, o'i chadair, yn canu gyda nhw. Roedd y cyfan yn anhygoel gan nad oedd hi ddim yn adnabod yr un ohonom. Ond fe orffennodd hyd yn oed y canu a'r lleferydd yn y diwedd. Bu farw heb yngan gair wrthym.

Oes modd i mi gael copi glo`s o Gôr Charles Owen? Mi dalaf amdano?

Gyda chofion cynnes
Catherine E. Roberts
(Betty Jones gynt)

Gyda llaw roedd mam yn fodryb i Elwyn Hogia'r Wyddfa, ei gŵr (sef fy nhad) yn frawd i Hugh Rich.

Tŷ Cyffredin,
Glanrhyd, Llanwnda

Annwyl Olygydd,
Yn ddiweddar daeth i sylw'r Cyngor Cymuned bod rhai cerrig beddi yn rhydd ym Mynwent Llanrug ac, er mai eiddo teuluoedd yr ymadawedig ydyw'r cerrig hyn, gan mai'r Cyngor Cymuned yw'r Awdurdod Claddu, gyda'r Cyngor yr erys cyfrifoldeb am y Fynwent, a'i diogelwch. Gan hynny, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn caniatáu lle i'r canlynol yn yr Eco.

**Mynwent Llanrug**

Yn dilyn archwiliad diweddar, daeth i sylw'r Cyngor Cymuned bod amryw o'r cerrig beddi ym Mynwent Llanrug yn ymddangos fel pe baent yn rhydd neu mewn cyflwr ansad.

Cyfrifoldeb ac eiddo y teuluoedd ydyw'r cerrig beddi hyn a gofynnir yn garedig i'r teuluoedd:

1) Sicrhau adfer cerrig beddi rhyddion i gyflwr diogel ar fyrder, a
2) Sicrhau eu bod yn cymryd pwyll a gofal, yn enwedig felly gyda phlant, wrth ymweld â'r Fynwent.

Rhoddir rhybudd, trwy hyn, y bydd y Cyngor yn gweithredu, mewn perthynas â cherrig beddi a ystyrir yn anniogel ym Mynwent Llanrug, drwy gymryd camau priodol a rhesymol i ddiogelu'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Fynwent, a gallai hynny olygu, er enghraifft, osod carreg ar ei chefn a hawlio cost y fath waith yn ôl oddi wrth y teulu.

Gyda diolch
E. Williams
Clerc y Cyngor

1 Tan y Ffordd
Bethel

Annwyl Olygydd,
Hoffwn weld y llythyr canlynol wedi ei osod yn eich colofn llythyrau yn rhifyn mis Rhagfyr o'r papur bro *Eco'r Wyddfa*.

**Ynghylch y Ddeiseb, yr Argymhellion a'r Arolwg Diogelwch Ffyrdd ym Methel**

Dymuna *Mudiad Sbardun* ddiolch i'r canlynol:

1) Clerc Cyngor Cymuned Llanddeiniolen sy'n datgan mewn llythyr atom Medi 22ain eleni ei fod *yn anfon gair i Gyngor Gwynedd i ddatgan* ***eu bod*** *fel Cyngor yn cefnogi'r argymhellion:*

2) R.B. Daimond, Syrfewr, Adran Briffyrdd a Pheirianneg, Cyngor Gwynedd sy'n datgan mewn llythyr atom Hydref 3ydd eleni: *byddwn yn ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned a'r Aelod Lleol,* (sef Huw Preis Huws, Plaid Cymru/The Party of Wales) ynghylch yr Argymhellion a gyflwynwyd gyda'r Ddeiseb, a'r Arolwg Trafnidiaeth ym mhentref Bethel;


3) Meryl James, yr Is-Adran Polisi Trafnidiaeth, sef llythyr Hydref 18fed, sy'n datgan i'r Cynulliad yng Nghaerdydd ddyfarnu ers mis Mehefin eleni *£181.000 i Gyngor Gwynedd, iddynt benderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu'r arian er mwyn* ***gwella diogelwch ffyrdd.***

Danfonwyd llythyrau at Brif Weithredwr a Phrif Syrfewr Cyngor Gwynedd Hydref 27ain, 2000 yn gofyn pryd ran dyddiad penodol y cwblheir eu harchwiliad o'r Argymhellion.

Dafydd Guto


**GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI**
**BRYNGWYN**
**Glanhau i fusnesau a chartrefi**
**Keith Rees Hughes**
**1 Cae Newydd, Llanrug**
**(01286) 674416 neu (07880) 847161**




**GWYNANT PIERCE**
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**ffôn: (01286) 650349**
**(0589) 899901**



*Llongyfarchiadau i Sharon Roberts a'i theulu o Ddeiniolen sydd wedi ennill Miliwn o bunnoedd gyda cherdyn crafu papur newydd y "Sun".*

## Cyngerdd y Canmlwyddiant



## Rhoddion

*Rhoddion na ddangoswyd y mis diwethaf:*

**£5:** Ann Roberts, Ty'n Llyn, 22 Goodman Street, Llanberis.

**£3:** Elizabeth a Cymro, Bryn Menai, Llangoed; Mr Cledwyn Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Colin a Valerie Jones, Llanberis.

**£2:** Bedwyr Owen Davies, Bryn Tirion, Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

*Rhoddion y mis hwn:*

**£10:** Mrs M. Mathews, Plas Pengwaith, Llanberis.

**£10:** Teulu y ddiweddar Mrs Annie James, Regent House, Deiniolen.

**£5:** Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs Pearl Williams, Parc, Waunfawr; Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen, Deiniolen; Neville a Jane Thorman, 14 Tai Caradog, Deiniolen; Maldwyn a Jean Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm-y-glo; Di-enw, Cwm-y-glo.

**£5:** Mr Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig; Y Cynghorydd Trefor Edwards, Llanberis; Falmai a John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis.

**£3:** Mr John Parry, 85 Maes Padarn, Llanberis; Ms C. Pritchard, 1 Dôl Eilian, Llanberis.

**£2:** Mrs Pat Parry, 1 Bryn Golau, Waunfawr.

**£2:** Dafydd Wyn Orrit, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis.

**£1:** Mr a Mrs Stanley Jones, Dolbadarn, Llanberis.


**BRYSIWCH!**
Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch CYW IÂR
a CHIGOEDD
ERAILL
RŴAN



oddi wrth
**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn:**
**Caernarfon 673574**
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI


Cefnogwch ein Hysbysebwyr





# DIGWYDDIADAU'R NADOLIG

Rhagfyr 6ed 2000 7pm
**NOSON CAWL & CHÂN**
**yng nghwmni CÔR ERYRI.**
Côst : £2 y pen i gynnwys cawl. *Dylid bwcio o flaen llaw*



Rhagfyr 3ydd & 10fed ( 1pm – 3pm)
**O GARPIAU I GARPEDI :**
**GWEITHDAI MATIAU RHACS**
Dyma gyfle i wneud mat rhacs bychain nadoligaidd i fynd adref.
Côst : Mynediad arferol i'r Amgueddfa.
*Dylid bwcio o flaen llaw.*



Rhagfyr 17eg
**GWEITHDY BLODAU'R NADOLIG GYDA PAT JONES**
**(CREFFTAU CAE COCH LLANBERIS)**
Dyma gyfle i wneud addurnlad o flodau Nadoligaidd
Côst : £5.50 i oedolion
£2 i blant ( dros 8 oed yn unig) /rhai dros 60
(Mae'r côst yn cynnwys defnyddiau a mynediad i'r Amgueddfa) *Dylid bwcio o flaen llaw*

**SIOP & CAFFI**
Papur Nadolig Cymreig, anrhegion unigryw lleol a bwyd cartref blasus dros ben....

**10% I FFWRDD YN Y SIOP A'R CAFFI GYDA'R HYSBYSEB YMA**
**(RHAGFYR 1 – 31)**

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
LLANBERIS
☎01286 870630

# O SIAMBAR SELWYN

Clirio tipyn roeddwn i. Clirio drôr. Dod ar draws hen basport a llun ohona i yn fachgen ifanc, ia, eitha golygus herfyd os ca i ddeud. Roedd gen i hyd yn oed resan wen yn fy ngwallt. Llun arall o Gwyn Tregarth (Gwyn Dob) a minnau yn stryffaglio i fwyta rhywbeth hefo *chop-sticks*, yn Hong Kong o bob man. Roedd 'na fedal yno. Medal yn ddu gan staen henaint ac, o graffu, y geiriau arno oedd *Welsh League. Northern Section – Winners Div II. Chall. Cup 1951-52.* Ia, dyddiau difyr cadw gôl i dîm Caergybi ar Cae Mwd oedd y dyddiau hynny. Does 'na neb yn cicio gwynt yn y fan lle bu Cae Mwd bellach, dim ond ceir, loriau a bysiau yn ciwio ar eu ffordd i'r Ynys Werdd.

* * *

Ac yng nghornel y drôr roedd 'na ddwy farblan – un lwydaidd ac un arall mor lliwgar â'r enfys. Sut yn y byd mawr roedd y ddwy farblan yma wedi llwyddo i guddio yn y drôr dros yr holl flynyddoedd? Mae'n rhyfedd fel y daeth nifer o atgofion yn ôl i mi wrth fwytho'r ddwy farblan. Welis i 'run plentyn yn chwarae marblis ers blynyddoedd.

Tua adeg Diolchgarwch bob blwyddyn mi fydda iard Ysgol Bethel fel wyneb y lleuad, yn grachod o dyllau i gorlannu marblis. Mi fydda 'na daeru a damio, ac mi fydda 'na reolau i'w torri. Tasg anodd fyddai taro marblan i'r twll dan orfodaeth y gosb o 'Thimbl Bŷs Bach', ond, dyna fo, 'doedd gêm o farblis hyd yn oed ddim yn gyffrous heb reolau. Digon o waith fod yna'r un plentyn wedi bod yn chwarae marblis ar iard Ysgol Bethel dros gyfnod yr Hydref eleni, a wela i fawr o obaith i'r farblan ddod yn ôl i fyd plant yn oes y dot.com. 'ma. Ond mi ges i bleser mawr wrth chwarae marblis.

Dwi'n cofio, rai blynyddoedd yn ôl bellach, i mi weld hen wraig yn llawn ei thrafferthion yn trio cadw cow ar rhyw gwbyn styfnig, tua thair blwydd oed. Mae'n amlwg mai gwarchod roedd y gryduras ac, fel pob nain, yn dueddol o ildio i holl ofynion y bychan. Dyna lle roedd y bychan yn dawnsio ei brotest ac yn sgrechian ei anfodlonrwydd, a'i wyneb dagreuol o yn blastar o 'eis crîm'.

Dwi'n dal i gofio'i eiria fo: 'Eis loli dw'i ishio, nid hwn,' er ei fod o wedi laddro'i wyneb hefo'r cornet ac yn amlwg yn mwynhau ei flas. Ia, barus a styfnig oedd y bychan, ac wedi hen arfer cael ei ffordd ei hun, a nain druan yn methu'n lân a dal pen rheswm hefo fo. Un o'r plant bach 'ma y byddai chwip din wedi gwneud mwy o les iddo nac eis crîm, neu eis loli.

Ond mi gafodd Nain lond bol ar 'i antics o ac mi wylltiodd yr hen gryduras gan sgrytian y teirmlwydd anniolchgar

'Yli,' meddai, 'os na fyhafi di – ddaw Nain ddim i chwarae marblis hefo chdi ar ôl mynd adra.'

Sobrodd y bychan drwyddo gan ollwng ei gornet a holi yn awchus. 'Marblis? Marblis? Be 'di marblis, Nain?' gan feddwl o bosib eu bod nhw yn fwy blasus nac eis loli.

Chlywais i fawr mwy o'r ddeialog – dim ond 'Tyd yn dy flaen, wir. Sbia golwg sy ar dy wynab di.'

Drama fach? Ia, a'i diweddglo yn ben-agored. Ys gwn i a gafodd y swnyn y profiad y gael gêm o farblis hefo'i nain? Ys gwn i pwy enillodd? Sylciodd y bychan ys gwn i?

Wn i ddim pwy oedd yr hen wraig na'r bychan, ond fel 'Nain Marblis' mae hi wedi aros ar fideo fy nghof i hyd heddiw.

* * *

Ia, dwy farblan mewn drôr yn dwyn yn ôl atgofion. I ble 'raeth y gweddill o'r marblis oedd gen i ers talwm? Roedd gen i lond bocs sgidia ohonyn nhw. Cannoedd o rai llwydaidd cyffredin a dwsinau o rai gwydrog, sgleiniog, lliwgar – y TOGOS fel y gelwid nhw. Oedd, roedd gen i ddigon o farblis i gynnal Steddfod. I gynnal Steddfod Genedlaethol.

A dyna be wnawn i ar ambell ddiwrnod stormus. Tywallt llond bocs sgidia o'r marblis llwyd ar lawr y gegin a'u gosod nhw yn drefnus, fel eisteddfodwyr pybyr ym mhafiliwn y Genedlaethol, i ddisgwyl awr fawr y Cadeirio.

Yna, fe ddeuai'r Orsedd yn urddasol i'r llwyfan, sef y Togos lliwgar, fel arfer i gyfeiliant mowth-organ. Yna'r Togo mwya oedd gen i yn cymryd ei le ar flaen y llwyfan. Fo oedd yr Archdderwydd.

Marblan wen offrymai Weddi'r Orsedd. Cafwyd beirniadaeth a theilyngdod ac fe gyrchwyd y bardd buddugol (sef marblan lwyd gyffredin) gan ddwy o'r Togos bach, i gael ei gadeirio yn Brifardd Steddfod y Marblis. Oedd, mi oedd 'na Gân y Cadeirio hefyd, gan Fryn Terfel o ganwr.

Ond mi gofiaf am un Steddfod Farblis drychinebus. Pan oedd y Togo Mawr ar fin galw am heddwch, fe ruthrodd Mwt y gath fel "bwldosar' drwy'r pafiliwn, gan sgrialu'r gynulleidfa ddisgwylgar i bedwar ban y gegin. Bu'n rhaid gohirio'r Eisteddfod hynod honno ac, ymhen blynyddoedd wedyn, pan oeddwn yn madael o Bryn Alun, Bethel, y daethpwyd o hyd i'r Archdderwydd yn swatio o dan yr hen gloc mawr.

Ond fe gynhaliwyd sawl Steddfod lwyddiannus arall ar lawr y gegin. Fe gadeiriwyd ac fe goronwyd sawl marblan, a choeliwch neu beidio, yn ystod seremonïau'r Orsedd ar wythnos y Brifwyl, mi fydd Steddfod y Marblis yn dod yn ôl i mi.

* * *

Un gwael fûm i am glirio 'rioed. Anaml iawn y galla i daflu dim sy'n dod ag atgofion yn ôl i mi. Aeth yr hen basport yn ôl i'r drôr yng nghwmni'r llun o Gwyn Dob a minnau yn Hong Kong. Fe gafodd y fedal dipyn o bolish, ar ôl hanner can mlynadd ac, o barchus goffadwriaeth am y gemau marblis ar iard Ysgol Bethel a Steddfodau Marblis cegin Bryn Alun, fe roddwyd y ddwy farblan yn ôl yn nhawelwch y drôr hefyd. Pwy bynnag fydd yn clirio'r drôr am y tro ola, fydd y ddwy farblan yn golygu dim iddyn nhw reit siwr.

* * *

Ys gwn i ydi Nain Marblis ar dir y byw o hyd, a be 'di hanas yr hen foi bach hwnnw oedd fwy o angen chwip din nag eis loli? Oes ganddo fo farblis yn 'i ddrôr ys gwn i? Digon o waith.


GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol
★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188


## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

LLONGYFARCHIADAU. Estynnwn longyfarchiadau calonog iawn i Rhian Wyn Morris, 5 Minffordd am ennill y wobr gyntaf am ganu'r cornet yn Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi ac am ennill y tlws am yr ymgais orau yn yr Adran Gerdd.

Hefyd yn ddiweddar, gwahoddwyd Rhian a'i theulu i Gaerffili i gyfarfod lansio pecyn adnoddau Daearyddiaeth ar gyfer ei ddefnyddio mewn ysgolion. Mae'r pecyn yn cynnwys gwaith a lluniau o Rhian.

DAMWAIN. Yn dilyn damwain yn ei waith, mae Wilfred Jones, Cynefin wedi treulio nifer o wythnosau yn Ysbyty Gobowen ond erbyn hyn wedi dod gartref ac yn gwella'n raddol Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

CYFARCHION. Drwy gyfrwng yr Eco, dymuna Miss Blodwen E. Owen, 1 Tai Orwig, gan na fydd yn anfon cardiau eleni, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i ffrindiau a'i chymdogion. Rwy'n siwr fod pawb yn ypentref yn anfon eu cofion ati hithau hefyd – yr hynaf yn ein plith – dros Wyl y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Trefn Oedfaon mis Rhagfyr:

3: Mr Islwyn Hughes, Llangoed am 10.00;
10: Y Parch Iorwerth Jones Owen am 2.00;
17: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr aelodau a phlant yr Ysgol Sul;
24: Dim Gwasanaeth;
31: Mr David Williams, Bethel.



*Llun Rhian Wyn Morris*

## Un funud fach...

### CAWL TOMATO

Roedd 'na bwt yn y papur heddiw am ganiau cawl tomato a allai fod yn ddrwg i chi. Mae'r gwneuthurwyr yn dweud bod yna ôl tun ar y cawl, ac yn galw ar bobl i ddychwelyd y caniau.

HL Foods Ltd yw'r gwneuthurwyr. Nid y cwmni mwya cyfarwydd. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw'r rhestr o labeli y mae'r cawl yn cael ei werthu danynt: Asda, Kwiksave, Netto, Shire, Aldi, Lidl, No Frills, Somerfield, Co-op, Lo-cost, Safeway, Tesco, Happy Shopper, Morrison a Sainsbury.

Enwau gwahanol, labeli gwahanol, cynlluniau gwahanol, ond yr un caniau, ac yn ôl pob tebyg, yr un cawl ym mhob un hefyd. A chithau fel finnau wedi meddwl bod yna gymaint o ddewis o gawl i'w gael!

Mae pob math o nwyddau eraill yn cael yr un driniaeth wrth gwrs, gydag un cwmni yn cynhyrchu bwyd sydd wedyn yn cael ei bacio dan wahanol labeli. Mae'n bur debyg mai'r un cawl yn union sy'n cael ei werthu dan enw'r holl gwmnïau uchod.

A dyna sut mae llawer o bobl yn gweld y gwahanol grefyddau hefyd. Maent wedi eu pacio yn wahanol, ac arnynt enw a label gwahanol, ond yr un peth sydd ynddynt yn y bôn. Yr un peth y mae nhw yn ei gynnig i ni yn y pen draw.

Ond nid dyna'r gwir. Nid crefydd cawl tomato mo Cristnogaeth. Nid yr un peth y mae hi yn ei ddweud ac nid yr un peth y mae hi yn ei gynnig â chrefyddau eraill. Mae hi'n wahanol i grefyddau eraill. Ac mae Iesu Grist yn wahanol i arweinwyr eraill. Dyma'r Un sy'n honni mai fo ydi'r Ffordd a'r Gwirionedd a'r Bywyd. Y Fo, a neb arall, sy'n gallu dod â ni i berthynas gywir â Duw. Y Fo, a neb arall, sy'n gallu rhoi i ni'r gwir fywyd tragwyddol. Dydi'r hyn mae O yn ei gynnig ddim i'w gael dan unrhyw label nac enw arall. Mynnwn weld hyn wrth ddathlu'r Dolig eleni.

*Gyda llaw, caniau ag arnynt gôd yn gorffen efo'r rhifau 07 ac yn cynnwys y llythyren W, a dyddiad "best before November 2002" sydd dan sylw.*

JOHN PRITCHARD


SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug


## CAEATHRO


Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)


GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Olivia a Richard, Cartref ar enedigaeth mab, Patrick.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol tan ddiwedd y flwyddyn:
Rhagfyr 3: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Dafydd Hughes;
10: 11.00 Ysgol Sul;
17: 11.00 Ysgol Sul, 5.30 Cyfarfod Carolau.

SIÔN CORN. Clywyd sibrwd y bydd ymweliad cynnar gan Siôn Corn ar gyfer plant Caeathro amser te dydd Llun, 18 Rhagfyr. Os bydd cadarnhad o'r amseriad, byddwn yn hysbysu holl blant y cylch.

BWFFE 'DOLIG. Mae Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro wedi trefnu cinio bwffe bys a bawd yn Nhafarn Bryngwna ar nos Wener, 8 Rhagfyr. Gellir prynu tocyn, £5 y pen, ar sail 'cyntaf i'r felin...' gan Jayne a Tim Lloyd, Bodawel (Tŷ Capel) cyn 4 Rhagfyr. Bydd Tynfa Dolig yr un noson.

PWYLLGOR CAE CHWARAE. Cynhelir cyfarfodydd o'r pwyllgor ar 4 Rhagfyr am 8 o'r gloch a 18 Rhagfyr (Tynfa mis Rhagfyr).

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar nos Lun, 20 Tachwedd. Roedd deuddeg yn bresennol. Ar ôl i'r Cadeirydd ddiolch i bawb am eu cymorth parod yn ystod blwyddyn anturus, derbyniwyd y Fantolen am 1990/2000 gyda throsiant o £4,500. Gellir gweld y manylion ar hysbysfwrdd y pentref.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2000/01: Cadeirydd - Clive James; Ysgrifennydd - Tim Lloyd; Trysorydd - Huw Ceiriog. Aelodau'r pwyllgor am y deuddeg mis nesaf yw Alun Roberts, Dafydd Roberts, Peris Thomas, Eryl Jones, Richard Jones, Wyn Jones, Dafydd Jones, Norman Hughes, Steve Rees.

Talwyd teyrnged i'r Trysorydd cyntaf, Wally Evans, wrth iddo ymddeol o'r pwyllgor.

Cytunwyd gyda'r bwriad o gyflwyno cais i'r 'Loteri' am gymorth i ail-ffensio'r Cae Chwarae; cael gwared o'r hen offer; gosod byrrdau picnic; plannu coed a mân welliannau eraill.

Trafodwyd manylion y cytundeb rheoli a chynnal a chadw y Man Chwarae newydd i'r plant iau. Roedd cytundeb unfrydol gyda'r telerau a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned y Waunfawr gydag un newid bach. O dan y telerau bydd rhaid i Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro ymgymeryd ag archwiliadau cyson, cynghori'r Cyngor Cymuned o ddiffygion a threfnu i lanhau'r offer; gwasanaethu'r biniau; glanhau'r safle a chodi a chael gwared â gwastraff. Felly, bydd oblygiadau ariannol i'w gwynebu o hyd. Ar ôl cryn drafodaeth penderfynwyd trwy bleidlais i beidio â newid rheolau'r Tynfa Misol.

CYNGOR GWYNEDD. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i dacluso safle y 3 garej wrth dai Bryn y Gof. Hefyd maent wedi cytuno i gywiro'r enw ar y fynedfa i'r tai.

## Antur Waunfawr

Cyhoeddir map mawr gloyw gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. O sticio'r poster hynod hwn ar eich wal, gall y patrymau cymhleth a'r lliwiau trawiadol drawsnewid yr ystafell mwyaf llwm. Mae'r map yn dangos lleoliad Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd Gwlyptir Ramsar, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a thros ddeg o arwyddnodau eraill. Mae'n ymddangos fod gan rhywun yn rhywle hoffter mawr o dynnu llinellau ar fap.

Y Cyngor Cefn Gwlad sydd yn bennaf gyfrifol am y clytwaith o arwyddnodau a dynodiadau sydd yn britho'r rhan hon o'r wlad. Cwango yw hwn sydd, i bob rheswm, yn gorfodi'r dynodiadau niferus hyn i fodolaeth yn enw rheoliadau Ewropeaidd, doed a ddelo. Mae hyn wrth fodd ecolegwyr a chadwriaethwyr unllygeidiog sydd o'r farn nad yw pobl yn rhan gynhenid o'r ecosystem a'n bod yn niwsans ac yn rwystr. Seilwyd y rheoliadau Ewropeaidd y mae'r dynodiadau wedi eu deillio ar y cysyniad o 'feddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol', sef cynnaladwyedd.

Mewn gwirionedd, mater sydd yn ymwneud â phobl yw cynnaladwyedd ac ychydig iawn o gydnabyddiaeth y mae'r ffaith hon yn ei gael yn y broses o sefydlu safle dynodedig newydd. Er bod rhywfaint o ymgynghori yn rhan o'r broses, mae'r gyfundrefn yn wallus ac wedi cael ei hanelu tuag at dirfeddiannwyr a digolledu ariannol. Gyda grym y wladwriaeth y tu ôl iddynt mae'r cwangos yn cael eu ffordd eu hunain bob tro. Ar eich orau y mae'r dynodiadau sydd yn cael eu gorfodi yn amherthnasol i ddyheadau'r gymuned leol ac ar ei waethaf y mae'n rhwystr i ddatblygiad y gymuned. Tra bod ystyriaethau ecolegol a chymunedol wedi eu datgysylltu oddi wrth eu gilydd, ni all y Cyngor Cefn Gwlad honni eu bod yn gweithredu yn enw cynnaladwyedd. Mae hyn yn bryder yn yr Unol Daleithau hefyd ble mae cysyniad anelwig a elwir yn *'sense of place'* yn cael ei ddatblygu er mwyn pontio'r bwlch rhwng y ddynoliaeth a' r ecolegwyr.

Yn ôl yr Americanwyr, *'sense of place'* ydi'r wead gymhleth o ystyron, ffordd o fyw a chysylltiadau cymdeithasol sydd yn gynhenid i ardal. Mae'n cwmpasu'r clymau emosiynol ac ysbrydol y mae pobl yn eu ffurfio â lleoliadau. Nid yr Amerig fawr ydi Cymru fach wrth gwrs, ond tybed a ellir datblygu damcaniaeth tebyg sydd yn berthnasol i ni. Gan ddefnyddio cymuned ac ardal Waunfawr fel enghraifft, rwyf yn bwriadu ymchwilio i'r posibilrwydd o addasu'r cysyniad o *'sense of place'* i fod yn dwlsyn ymgynghori defnyddiol. Gan gymeryd fod y CCG am barhau gyda'u hobsesiwn o dynnu llinellau ar fap am rai blynyddoedd i ddod, efallai y byddai twlsyn o'r fath yn eu galluogi i ragweld, adnabod ac ymateb yn sensitif i'r cwlwm sydd gan bobl ag ardaloedd arbennig gan fynd gam bychan yn nes at y nôd o gynnaladwyedd.

O.N. Hogyn o Ben-y-groes ydw i, ac er nad oes yna brinder llyfrau ac ati am ardal y Waun buaswn yn hynod o ddiolchgar am unrhyw wybodaeth defnyddiol y gall eich darllenwyr ei gynnig am y gymuned. Os oes gan unrhywun awgrym am derm Cymraeg a Chymreig am *'sense of place'* cysylltwch â mi ar frys! Gellir cysylltu â mi drwy Antur Waunfawr neu drwy e-bostio: penygroes@supanet.com

Rhys Owen

**Deunydd y rhifyn nesaf erbyn nos Lun Rhagfyr 11**


EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

# CHWILOTA

## Hollti a Naddu



Gan gyfaill o Ddeiniolen y daeth stori arall am arddangosfa hollti a naddu a gynhaliwyd yn Battersea Park, Llundain yn 1951. Roedd cynnyrch holl weithfeydd Prydain yn cael eu harddangos yno, a dau yn cynrychioli chwarelwyr Dinorwig wedi eu hanfon yno i ddangos y grefft o hollti a naddu. Roeddent yn aros yno am bythefnos.

Yn ystod yr arddangosiadau sylwodd y ddau fod un person arbennig yn dychwelyd ddiwrnod ar ôl diwrnod i ymyl y cylch oedd yn eu gwylio wrth eu gwaith. Aethant yn bur anniddig, gan dybio ei fod, efallai, yn rhyw fath o arolygwr wedi ei anfon i gadw golwg ar y modd roeddent yn ymddwyn ac yn gwneud eu gwaith. Ond ar y diwrnod olaf un o'r arddangosfa a'r ddau grefftwr yn paratoi i glirio'u harfau a thwtio'r stondin, camodd y gŵr dieithr o ymyl y cylch fu'n gwylio a'u cyfarch yn Saesneg.

Eglurodd fel yr oedd wedi ei gyfareddu gyda'r grefft o hollti'r garreg las a'i naddu yn llechi o faint arbennig. Roedd mor hy' ac awgrymu fod y grefft yn anos nag arfer oherwydd fod y chwarelwyr yn defnyddio celfi mor hynafol a thrwsgwl i wneud y gwaith! Gofynnodd i'r ddau pa mor hen oedd y grefft, ac ers sawl blwyddyn y bu Chwarel Dinorwig yn cynhyrchu llechi.

Atebodd un o'r chwarelwyr ef gan ofyn a oedd yn cofio hanes Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn. Oedd, roedd yn gwybod am y stori, a'r ffaith i'r gorchmynion gael eu naddu ar garreg. *"Well,"* meddai un o'r chwarelwyr, *"that stone was slate from Dinorwig Quarry!"*

Wna'i ddim dadlau ynglŷn â'r stori, ond beth am yr arddangosfa yn Battersea Park? Oes rhywrai yn cofio'r digwyddiad? Mae'n fwy tebygol fod rhai o'r darllenwyr yn cofio digwyddiad o'r fath yn hytrach na'r arddangosfa gynharach yn Nottingham yn y 1930'au y soniwyd amdani fis diwethaf. Oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth am y ddau a anfonwyd o Chwarel Dinorwig i dreulio pythefnos yn hollti a naddu llechi yng nghanol dinas Llundain?

### Dosbarthiadau'r WEA yng Nghaeathro

Daeth i'm meddiant yn ddiweddar gopïau o gylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr – *Lleufer* – a olygwyd gan David Thomas. Yn rhifyn Haf 1949 deuthum ar draws yr englyn canlynol i'r dyfrgi :

Anifail gwych am nofio – yw'r Ci Dŵr,
O'r cae daw, 'rôl crwydro;
Drwy ewyn dŵr y naid o –
Yn y dŵr y myn dario.

Mae nodyn eglurhaol yn dweud mai englyn wedi ei gyfansoddi ar y cyd yw hwn, a hynny gan Ddosbarth Caeathro, dan gyfarwyddyd eu hathro, Meuryn. Faint o'r darllenwyr sy'n cofio'r dosbarth hwn yn cael ei gynnal, ac am ba hyd y bu'r cynganeddion yn cael eu dysgu yng Nghaeathro?

### Pwy oedd Isabel Rogers?

Yn dilyn cyhoeddi atgofion Mrs Shirley Griffiths am ei chyfnod yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, a'i sylw o'r actores Isabel Rogers, a fu hefyd yn ddisgybl yno, daeth mwy o wybodaeth i law yn croniclo peth ar hanes ei gyrfa.

Roedd Mrs Sarah Kelly o Fangor (Llanddeiniolen gynt) yn ei chofio oherwydd iddi fod yn gyd-ddisgybl ac yn ffrindiau â'i chwaer, Sophia Mary Williams. Credai iddi ymuno â grwp o actorion dan ofal Emlyn Williams. Mae hefyd yn cofio gweld lluniau o'r criw ym mhapur newydd *Y Cymro* tua diwedd y tridegau.

Roedd Mrs Margaret Cynfi o Ddeiniolen yn gyfnither i Isabel Rogers, ac ysgrifennodd fywgraffiad byr ohoni. *"Ganwyd hi ar 25ain o Ebrill 1922 yn 6 Tai Victoria, Deiniolen, yn ferch i Hugh a Harriet Rogers. Brodor o Brenteg, ger Porthmadog oedd ei thad, a ddaeth i'r ardal hon yn wreiddiol i ddreifio un o'r bwsiau cynharaf i ddod i'r pentref. Bu wedyn yn cario glo am flynyddoedd. Merch William Ellis a'i wraig, Isabella oedd Harriet, ei mam. Bu hi, cyn ei phriodas, yn athrawes yn ysgol y pentref.*

*Isabel oedd y plentyn cyntaf o'i chenhedlaeth hi o'r teulu, ac roedd y teulu (a gawsai brofedigaethau erchyll yn ystod dau ddegawd cyntaf y ganrif) wedi mopio efo hi.*

*Tyfodd i fod yn ferch dywyll, dlos, a datblygodd yn adroddwraig dda o dan gyfarwyddyd ei mam.*

*Yn 1938, wedi iddi ymadael o Ysgol Brynrefail, derbyniwyd hi fel aelod o gwmni drama newydd a sefydlwyd yn Llangollen."*

Mae'n bosibl mai'r bwriad oedd datblygu'r cwmni hwn i ddod yn Gwmni Drama Cenedlaethol Cymru, ond wrth gwrs, torrodd yr Ail Ryfel Byd allan, a bu'n rhaid gohirio'r freuddwyd honno am sawl blwyddyn. Erbyn ail-gynneu'r fflam gan yr actor Conrad Evans yn ystod y pumdegau, roedd actorion y cwmni gwreiddiol hwnnw wedi gwasgaru.

*"Aelod o'r cwmni yn Llangollen oedd Meredith Edwards, a ddatblygodd i ddod yn actor adnabyddus."* Nid yw Mrs Margaret Cynfi yn sicr o'r dramau a berfformiwyd gan y cwmni, ond *"cofiaf am Isabel yn fy nychryn wrth adrodd, fel y gallai hi, rannau o Macbeth, a'i llygaid duon yn fflachio."*

Roedd y cwmni yn perfformio ym Mharis pan dorrodd y rhyfel allan ym Medi 1939, a bu'n rhaid dychwelyd i'r wlad hon yn sydyn.

Wedi'r rhyfel, priododd Isabel, gan fyw yng Nghaernarfon, ond bu farw'n gymharol ifanc yn 1982. Bu mab iddi, Lloyd Jones, yn athro ym Mrynrefail.

Tybed a oes lluniau o'r cwmni drama cynnar hwnnw yn Llangollen ar gael?

### Ysgol Tan y Coed, Penisarwaen

Mae'r llun a ddangoswyd o'r ysgol yn y tridegau wedi achosi i lawer un o'r cyn-ddisgyblion geisio rhoi enwau i'r wynebau. Bellach, mae bron pawb yn y llun wedi ei enwi. Gyda diolch i bawb a fu'n casglu, yn holi ac yn stilio!

Dyma'r enwau i gyd, gan gynnwys enwau eu cartrefi, a hefyd nodi eu perthynas â'i gilydd :

*Rhes gefn (chwith i'r dde)* John Rowlands, Glan Gors; Griff Jones, Cae Corniog; Hugh Thomas, Cae'r Bleddyn; Gwilym Wyn Williams, Brynrefail; Richard Wyn Williams, Brynrefail; Richard John Jones, Baron Hill; Alun Glyn; Gwynedd Williams, Brynrefail; Ieuan Williams, Llwyn Coed.

*Ail res o'r cefn*: Gwenhwyfar Foulkes, Blaen y Waen; Astrid Evans; Nancy Owen, Stabla; Mary Roberts, Stabla; Phyllis Ellis, Coch Hir; Margaret Ellen Williams, Waen, chwaer Tom Gorlan; Margaret Thomas, Waen; Mair Jones, Arthur Terrace, chwaer Owen Glyn; Cassie Thomas Rees, chwaer Betty Eiddwen.

*Trydedd rhes*: Glenys Jones, Toriad; Megan Williams, Fron Howel; Megan Closs Parry, Brynrefail; Dilys Mai (?), Jennie Angharad (?) neu Eileen Foulkes, Brynrefail; Gracie Thomas, Cae'r Bleddyn, chwaer Hugh; chwaer Richard Wyn (?); Mafalda Evans, Bryn Eithin, efaill Astrid.

*Rhes flaen*: Morgan Evans, Bryn Eithin bach; Eileen Foulkes, Brynrefail (?) Elfed Davies; Annie Foulkes, Blaen y Waen, Arthur Terrace, chwaer Gwen; Gwilym Owen, Waen; Mary Jones, Stabla.

### Llwyn Cogau

Daeth cais o'r tu allan i'r fro am wybodaeth ynglŷn â Llwyn Cogau, tyddyn rhwng Clwt y Bont a Brynrefail. Er nad yw'r tŷ ei hun wedi ei leoli ar lan y Galedffrwd, mae'n ymddangos fod ffrwd fechan sy'n llifo i'r afon honno o'r tir corslyd yng nghysgod y creigiau tu cefn i'r Rhydau Duon, yn bwydo melin yng nghyffiniau'r Clegyr, islaw Clwt y Bont. Ni ddeuthum ar draws cyfeiriad at felin o gwbl yn y fan hon – roedd melinau Clwt y Bont yn uwch i fyny'r Galedffrwd – ond roedd cae ar dir Llwyn Cogau yn arfer cael ei alw yn Cae Ffos y Felin.

Tybed a all unrhyw un o'r ardal honno daflu unrhyw oleuni ar hyn?

Bydd rhifyn nesaf yr *"Eco"* o'r wasg cyn i'r inc ar y papur hwn orffen sychu, felly ni fydd fawr o amser i ymateb i unrhyw ymholiad ynglŷn â chynnwys y golofn hon tan fis Ionawr. Ond anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286) 673515.

**Deunydd y rhifyn nesaf erbyn nos Lun, Rhagfyr 11**


**R. M. (DIC) PARRY**
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



**Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill**
**Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun**
**Ffôn: (01286) 871833**

# DINORWIG

**Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

ADREF O'R YSBYTY. Yr wyf yn sicr ein bod fel ardal yn estyn croeso adref o Ysbyty Gwynedd i Mrs Sioned Lewis, 3 Bro Elidir ar ôl llawdriniaeth, ac hefyd yr ydym yn estyn yr un croeso i Mrs Sally Brenan, Afallon, hithau hefyd wedi cael triniaeth. Hyderwn y bydd y ddwy yn dal i wella o ddydd i ddydd. Cofion atoch eich dwy a brysiwch wella.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch. Mae Andrew wedi colli ei frawd, Howel, a oedd yn byw yn Rhiwlas. Gobeithio y bydd ichwi gael nerth oddi uchod yn eich galar a'ch tristwch.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Geraint Morris, Tŷ Capel MC ar enedigaeth eu mab, Siôn Ifan, brawd bach i Gwenno. Boed i Eira a Geraint gael iechyd a bendith i fagu'r bychan ac yr wyf yn deall fod Gwenno yn meddwl y byd ohono.

DIOLCH. Mae Andrew Griffith, Tan y Bwlch am ddiolch yn fawr i bawb am eu cydymdeimlad tuag ato yn ei brofedigaeth o golli Howel, ei frawd, yn ddiweddar.

PARTI CALAN GAEAF. Ar noson Calan Gaeaf cafwyd parti yn y Ganolfan i blant y pentref gan Gymdeithas Trigolion Dinorwig a Gwerin y Coed. Cafwyd noson lwyddiannus iawn lle daeth pump ar hugain o blant yr ardal ynghyd yn eu gwisgoedd ffansi. Cawsant ei difyrru gan storïau Eric Maddern a gemau Gwerin y Coed. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i'r rhieni a ffrindiau a gyfrannodd tuag ar y noson i'w gwneud mor llwyddiannus ac yn noson i'w chofio. Gobeithia'r trefnwyr y gallant drefnu noson arall yn fuan i'r plant.

MARWOLAETH.

Teyrnged i'r ddiweddar Lizzie Thomas.

Ar Dachwedd y cyntaf, yn 88 oed, bu farw y ddiweddar Lizzie Thomas, Llidiart y Clo gynt ac wedyn o Gartref Plas Pengwaith, lle y bu iddi farw. Bu ei chynhebrwng yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Dachwedd 7fed gyda'r Canon Idris Thomas a'r



Lizzie Thomas

Deon Gwlad, y Parch Philip Hughes, yn gwasanaethu. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd yn cynnwys criw da o'r ardal yma i dalu'r deyrnged olaf iddi.

Talwyd teyrnged arbennig i Lizzie Thomas gan Idris a phwy a allasai fod wedi gwneud hynny yn well na fo, gan iddo gael ei eni a'i fagu yn ei hymyl, a'i ddiweddar dad yn gyfaill mawr iddi. Dyddiau difyr Pen Draw oedd y cyfnod hwnnw. Yn 1989 ymddangosodd portread ohoni gan Idris yn y *Llan* ac *Eco'r Wyddfa* dan y pennawd 'Gadawyd fi ar fy mhen fy hun'. Teitl yr erthygl (geiriau o Lyfr Daniel) yn cyfeirio at y ffaith mai Lizzie bryd hynny oedd yr unig Gymraes ar ôl yng nghymdogaeth Pen Draw, oherwydd aeth y Gymraes olaf heblaw hi oddi yno bymtheng mlynedd ynghynt.

Nodwyd gan Idris fod tair 'C' yn cwmpasu bywyd Lizzie Thomas, sef Cymdogaeth (Pen Draw) lle yr oedd yn byw; Cegin (Ysgol Dinorwig) lle bu'n gweithio am rai blynyddoedd, a'r mwyaf o'r tair Cysegr (Eglwys St. Mair) lle bu'n aelod ffyddlon a thriw.

Gwelodd Lizzie ei chymdogaeth yn newid yn llwyr, yr ysgol lle bu'n gweithio yn cau, a diwedd yr Achos yn ei heglwys hefyd. Bron ar ddiwedd y deyrnged mynegodd Idros 'ym mywyd gwerinol, naturiol, di-sôn a chyfoethog o ddiniweidrwydd a symlrwydd y cofir am Lizzie Thomas, Llidiart y Clo.'

Boed heddwch i'w llwch.

YSTORM SUL TACHWEDD 5

Yn y rhifyn olaf o'r Eco bu imi grybwyll ystorm 3ydd o Hydref a bod Dinorwig yn olaf i gael trydan yn ôl bob tro. Nid oeddwn wedi sylweddoli fod yr un problemau yn bod heddiw ag yr oedd ar Nadolig 1989. Yr wyf wedi bod mewn mwy nag un cyfarfod hefo MANWEB ers hynny, ac ym mhob un maent wedi sôn am y llu gwelliannau a chymaint y maent wedi ei ddysgu ers hynny; ond ar y 5ed o Dachwedd profwyd imi mai ychydig iawn o ddim y maent wedi ei ddysgu, gan fod yr un hen broblemau yn digwydd dro ar ôl tro.

Ar y Sul uchod, a finnau wedi paratoi i fynd i'r oedfa, tua 4.15 fe'm brawychwyd gan andros o glec a'r peth nesaf, aeth y trydan allan. Ar ôl tua pum munud sylweddolais mai'r cysylltiad rhwng rhif 6 a 7 oedd wedi mynd unwaith eto, dim yn newydd yn hyn wrth gwrs, felly bu imi ffonio rhif argyfwng MANWEB. Ar ôl gwrando ar gerddoriaeth am dros ddeng munud cefais ateb, ond nid wyf yn meddwl fod y person yma erioed wedi clywed am Ddinorwig. Am 8 o'r gloch gan nad oedd dim trydan o hyd, rhoddais alwad arall iddynt. Cerddoriaeth ddiddiwedd eto ond, pan gefais ateb, cefais ar ddeall nad oedd ganddynt gofnod o'r alwad 4.20 o gwbl. Gwylltiodd hyn dipyn arnaf a rhoddais alwad i'r Cynghorydd Len Jones. Rhoddodd ef alwad iddynt a dywedwyd wrtho y byddai y trydan yn ôl ymhen hanner awr.

Am 11.45 pm a'r trydan byth yn ôl rhoddais alwad arall iddynt. Ar ôl gwrando unwaith eto ar y gerddoriaeth ddiddiwedd, y peth nesaf a glywais oedd y gair 'Bore da' (yn yr iaith fain wrth gwrs). Dywedais wrthi nad oedd yn fore da i mi, a'r amser erbyn hyn yn 12.08. Dywedodd wrrthyf fod ei chyfrifiadur yn dweud wrthi eu bod yn gweithio yn Ninorwig a bod 67 o dai heb drydan. Yr oedd hyn yn anghredadwy gan fy mod yn gwybod fod y mwyafrif hefo trydan ac nid oeddwn yn rhy siwr os oedd yna 67 o dai yma o gwbl!

Codwyd fi o'm gwely am 2.30 y bore gan MANWEB yn dweud wrthyf fod yn wir ddrwg ganddynt na allent gael hyd i beth oedd o'i le gan fod y gwifrau i gyd i lawr ac yn fyw. Byddai rhywun yn galw ar ôl iddi oleuo. Dywedais wrtho fy mod wedi dweud ar yr alwad gyntaf i MANWEB mai y cysylltiad rhwng 6 a 7 oedd wedi mynd – dim yn newydd yn hyn wrth gwrs.

Erbyn hyn yr oedd tîm arall wdi cyrraedd. Wrth siarad â'r hogiau cefais ar ddeall ganddynt mai gyda dau dŷ yr oedd ganddynt broblem – rhif 6 a 7, nid 67.

Cafwyd y trydan yn ôl am 3.45, dim ond dros dro gan fod yn rhaid iddo gael ei wneud yn iawn. Erbyn hyn y mae wedi cael ei wneud unwaith eto, amser a ddengys am faint y pery.

Fel y dywedais, mae'r problemau yn dal. Dim Cymraeg wrth gwrs. Cerddoriaeth ddiddiwedd. Dim gwybodaeth o'r ardal, ond, yn waeth na'r cyfan, y derbynydd ddim yn rhoi y wybodaeth gywir yn y cyfrifiadur.

Carwn ddiolch o galon i'r ddau a ddaeth yma. Yr hogiau yn rhoi o'u gorau bob amser, a diolch hefyd i'r Cynghorydd Len Jones.

MENTER UN O BLANT YR ARDAL.

Mae yn debygol erbyn hyn fod mwyafrif darllenwyr bro yr Eco wedi clywed neu weld fod siop ddodrefn newydd o'r enw Dodrefn Perkins wedi agor ar ran o safle yr hen Nelson. Wel, y mae'r siop yma yn fenter gan un o hogiau ardal Dinorwig. Mab ieuengaf y diweddar Mr a Mrs Morris Perkins, 5 Bro Elidir yw Noel, ac y mae yn rhaid ei longyfarch yn fawr iawn pe bai dim ond am fentro. Os am ddod ymlaen yn y byd mae'n rhaid mentro a dyna beth y mae Noel wedi ei wneud. Mae Noel wedi gadael Dinorwig ers dros 25 mlynedd ac wedi gweithio ar y safle yma o'r blaen. Yn 1983 yr oedd yn Rheolwr ar y Nelson, ond yn 1990 fe aeth i weithio fel prynwr dodrefn i Finneys ym Mangor, ond wedi cadw cysylltiad agos hefo rhai o brynwyr y Nelson. Gobeithio y bydd hyn o fantais iddo yn ei fenter newydd.

Yn agor y siop yn swyddogol ar 10 Tachwedd roedd un arall o blant yr ardal, sef Eifion neu fel y mae y mwyafrif yn ei adnabod, Jonsi.

Rwyf yn sicr fy mod yn siarad dros bawb o Ardalwyr Dinorwig drwy ddymuno llwyddiant ysgubol iddo. Mae yn ei haeddu. Cofiwch fod arno angen ein cefnogaeth. Dyn a ŵyr mae angen siop fel hon yng Nghaernarfonm, ac er mwyn llwyddiant mae'n rhaid ei gefnogi.

Noel, ga i ddymuno llwyddiant, iechyd a phob bendith i'r dyfodol. Os caiff Noel lwyddiant bydd yn ymestyn y siop yn y dyfodol.

Pob lwc Noel a chofiwch ei gefnogi.

DIOLCH. Dymuna Ruth a Dafydd ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Miriam Catrin


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);**

**YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu**

**YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)**

**Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH**

**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**

**Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)**

**Ffôn: (01248) 355055**

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

**Y SGWÂR LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol

Cerrig o bob math ar gael

**Ffôn: (01286) 672898** (dydd) **676285** (nos)

MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD **BANGOR (01248) 354646**

CYFARCHION NADOLIG

DEINIOLEN

SWYDDFA'R POST A SIOP

CLWT Y BONT

Ffôn: 870325

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

JAVED A SHAHEEN HAQ

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Deiniolen, Ffôn: (01286) 870484

Bysus o 12 i 53 sedd — Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

Trelerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Dymuna Ken, Roberta, Dafydd a staff

Y TARW (Bull Inn)

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU

Ffôn; Llanberis 870545

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

*Bar Swper Arfonia*

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

Jos, Donna a staff y

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn (01286) 870227

CWRW BLASUS CHWERW AR EI ORAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

BILL, LIZ a FIONA

SWYDDFA'R POST DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870283

GROSER TRWYDDEDIG

ASIANT LOTERI CENEDLAETHOL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth pawb yng

TICEDI — LOTERI!

Nghorsaf Betrol BERAN

01286 871 521

Ar agor 7a.m - 9p.m. bob diwrnod

Petrol . Diesel . Nwy Calor. Glo . Wyau

Cylchgronnau . Papurau Newydd . Cardiau

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flawyddyn

Esso

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



*Plant Blwyddyn 6, Ysgol Gwaun Gynfi, ar Ynys Enlli.*

DIOLCH. Dymuna Nancy Jane a Neville a'r teulu, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl eu profedigaeth o golli Robert Eurwyn, eu brawd, o Fynydd Llandegai.
Diolch am y galwadau ffôn, y cardiau a'r cyfraniadau ariannol tuag at Ward Aran a meddygfa Bethesda. Hefyd diolch i'r Parch D.J. Pritchard am ei wasanaeth ddydd yr angladd. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd a'ch cydymdeimlad yn fawr iawn.
DYMUNA James, Beryl, Owie ac Ann a theulu y diweddar Annie James, Regent House, Deiniolen ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch i staff Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am eu gofal. Diolch i'r Parchedigion John Pritchard a Trefor Lewis am y gwasanaeth ac i E.W. Pritchard, Llanberis am drefnu'r angladd. Fe roddwyd rhodd tuag at Ymchwil i Lid yr Ymennydd.

**FFAIR NADOLIG. Cynhelir Ffair Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Wener Rhagfyr 1 am 7 o'r gloch. Bydd Siôn Corn yn galw heibio.**

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor nos Lun, Hydref 16 yn neuadd yr ysgol. Croesawyd atom aelodau o ganghennau Rhiwlas, Tregarth a Bethel. Llywyddwyd gan Marian Williams a'r wraig wadd oedd Sulwen Davies, Parc, Y Bala, cyn-Lywydd y mudiad. Cafwyd ganddi hanes ei thaith ar ran y mudiad i Lesotho, a mwynhawyd yn fawr y sleidiau a'r hanes. Roedd ganddi enghreifftiau o waith merched Lesotho a chafwyd noson ddifyr iawn. Estynnwyd y diolchiadau gan Mrs M.C. Griffith.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol nos Lun, Hydref 23 yn Ystafell y Seindorf. Cawsom ein swyno gan ddatganiadau hyfryd aelodau ifanc y Seindorf o dan arweiniad Mr Hefin Goronwy Jones. Rhyfeddwyd at eu gallu a'u disgyblaeth yn cyflwyno darnau amrywiol o gerddoriaeth. Llywyddwyd gan y Parch John Pritchard ac estynnwyd diolchiadau gan Mrs Eirlys Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Caban ar nos Lun, Tachwedd 27. Croeso cynnes i bawb.

DYMUNA Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

YSGOL GWAUN GYNFI.
Dosbarth Meithrin. Croesawyd 20 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin y tymor hwn ac maent wedi setlo i mewn yn hapus erbyn hyn.
Ynys Enlli. Y Tymor diwethaf, sef Tymor yr Haf 2000 cafodd plant blwyddyn 6 yr ysgol y fraint o ymweld ag Ynys Enlli. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn yn dysgu am hanes y bobl oedd wedi byw ar yr ynys a'r bywyd gwyllt sy'n ymgartrefu yno.
Sioe Feithrin. Ar Hydref 17 bu holl blant y babanod yn gweld Sioe Feithrin yn Theatr Gwynedd. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn.
Gwasanaeth Diolchgarwch.
Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn yr ysgol ar Hydref 20. Daeth y plant a llysiau a ffrwythau i'r ysgol a'u gosod ar fwrdd yn y neuadd. Rhoddwyd y cynnyrch i henoed y pentref.
Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr. Cynhelir y cyfarfod uchod ar nos Lun, Tachwedd 27, 2000 am 6.30. Croeso cynnes i bawb.
Clwb 100. Medi. 1. Mari W. Ellis, 3 Hafod Oleu; 2. Eirian Jones, Ysgol Gwaun Gynfi; 3. Clarice Roberts, Tan yr Hen Ffordd.
Hydref. 1. Caradog Thomas, 2 Bron Helen; 2. Lynda Owen, 7 Tai Caradog; 3. Margaret Williams, 6 Ffordd Deiniol.
Tachwedd. 1. Mari W. Ellis, 3 Hafod Oleu; 2. Elliot Jones, Caernarfon; 3. Barbara Allen, Clwt-y-bont.
Noson Celt. Cynhaliwyd noson Celt yng Nghlwb y Felin, nos Wener, Tachwedd 17. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson lwyddiannus hon.
Ffair Lyfrau. Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Scholastic yn ystod wythnos Tachwedd 13 i 17. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r gwerthiant.
Ymgyrch Plentyn y Nadfolig. Casglwyd dros 100 o focsys i'r ymgyrch hon eto eleni. Diolch yn fawr.
Cynorthwywyr Darllen. Mae tair o enethod Dosbarth 6 Ysgol Brynrefail, sef Lowri Morris, Rhian Jones a Kelly Davies yn cymryd grwpiau o blant i ddarllen a thrafod bob dydd Mercher a dydd Gwener. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith caled.
Cyngerdd Nadolig. Cynhelir Cyngerdd Nadolig yr ysgol eleni ar nos Fercher, Rhagfyr 13 gyda Seindorf Ieuenctid Deiniolen.
Nadolig Fictorianaidd. Bydd dosbarth 3, sef dosbarth Mr Parry yn ymweld â Chastell Penrhyn ar ddydd Llun, Rhagfyr 18 i weld sut roedd trigolion Castell Penrhyn yn treulio eu Nadolig yn yr oes Fictorianaidd ac i wneud addurniadau a melysion ar gyfer y Nadolig.
Pantomeim. Bydd holl blant yr ysgol yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld Pantomeim Sarjiant Sowth Siwperstar ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 19.

CYNGOR EGLWYSI. Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref y Cyngor Eglwysi lleol yng Nghefnywaun. Cymerodd aelodau'r eglwysi ran mewn Oedfa Ddiolchgarwch.
Yr oedd cyfarfod mis Tachwedd yn Ebeneser dan arweiniad y Parch. John Pritchard.

YMWELIAD. Croesawyd y Parchg. Hmar Sangkhuma i gyfarfod arbennig yn Ebeneser ddydd Mawrth, Tachwedd 14. Gweinidog o'r India yw Sankhuma, ac mae'n gweithio yng Nghymru gyda'r Annibynwyr am gyfnod o bedair blynedd.

**Nadolig 2000**

Mae tinsel ac addurn yn Siopau y Dre',
A miwsig a bwrlwm yn llenwi y lle;
Rhieni'n chwilota am anrhegion i'w plant,
Bob un yn wahanol, wrth borthi eu chwant.

Ond tybed a ydym yn gwybod y gwir
Wrth fwyta y twrci ag yfed y bîr;
Anghofio yr ydym am eni ein Crist,
A hynny sy'n fater eithriadol o drist.

Anghofio y Duwdod a hoelion y Groes,
Anghofio y gwawdio, ei boen, a'r holl loes;
Dyn sy'n gyfrifol am yr hoelion a'r sen,
Am groeshoelio ei Frawd ar ddau ddarn o bren.

Mae dyn wedi gwrthod pwy ydyw ei Dduw
Ac yn ei anialwch mae mor fyddar ei glyw;
Dwy fil o flynyddoedd sydd wedi mynd
Ac mae'r Iesu yn caru gelyn a ffrind.

*John V. Morris*
*Rhianfa, Clwt-y-bont*

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeiriwyd cyfarfod mis Tachwedd gan Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun. Derbyniwyd gwybodaeth gan Syrfewr y Sir ynglŷn â'r newidiadau y bwriedir eu gwneud drwy ail-ddosbarthu y ffyrdd B4366/B4547 rhwng Llandygai a Brynrefail. Eglurodd y clerc fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod tawelyddion traffig ym Mhenisarwaun, a bod perchnogion y tai yn y brif stryd wedi derbyn cynllun yn dangos y mannau lle gosodir y tawelyddion, gan ofyn iddynt eu barn ar y safleoedd.

Gobeithir symud ymlaen yn y dyfodol agos i ddarparu safle Ail-Gylchu Cymunedol gyferbyn â safle'r Post yng Nghlwt-y-bont.

Cafwyd eglurhad gan Gwmni Bysiau Arriva mai y rheswm eu bod yn troi yn ôl ger Cae Glas, Rhiwlas oedd am fod ceir yn parcio ger y Post, a bod troi yn ôl yn y fan honno yn beryglus.

Eglurodd y clerc bod y meinciau i gyd (ac eithrio Rhiwlas) wedi cael eu gosod. Gobeithir gosod un Rhiwlas ar dir y Neuadd newydd pan gwblheir y gwaith. Blin oedd deall fod dwy o'r meinciau - un ym Mhenisarwaun ac un arall yng Nghlwt-y-bont - eisoes wedi cael eu fandaleiddio.

Cytunodd y Cyngor i wrthwynebu'r polisi i wyro Llwybr 141, Cae Goronwy, Fachwen. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi i ystyried pob cais i wyro llwybrau cyhoeddus o safbwynt hwylustod i gerddwyr yn hytrach na hwylustod i dir feddianwyr.

Cytunwyd i roddi rhoddion i'r canlynol ac i sefyll yn gadarn wrth y polisi i ystyried dim ond y ceisiadau a dderbyniwyd o fewn y dyddiad penodedig a hefyd geisiadau y derbyniwyd mantolen ariannol gyda hwynt.

Rhoddwyd £200 i Ysgolion Meithrin Bethel a Phenisarwaun, Eisteddfodau Bethel, Penisarwaun a Gwaun Gynfi, a hefyd i Ganolfan Penisarwaun. £150 i Eco'r Wyddfa a Seindorf Deiniolen a £25 i Llais Ogwan.

# DRAENOG

Glywsoch chi am y gŵr a brynodd gar newydd cyn mynd ar ei wyliau yn ddiweddar? Wnaeth o ddim sylweddoli nad oedd yna ddigon o le yn y car newydd i'r holl deulu a'u bagiau. Roedd hi'n dipyn o strach wrth iddyn nhw gychwyn yn blygeiniol. Bu raid iddo godi ei dad o'i wely am 4 o'r gloch y bore i'w anfon ef yn syth efo gweddill y teulu i'r Maes Awyr ym Manceinion.

**PEIDIWCH A GORI AR STORI**
**anfonwch hi i *Eco'r Wyddfa***

*NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA*
*oddi wrth*
**WIL G. ROBERTS**
**Bod Gwilym, Cwm-y-glo**
**Ffôn: (01286) 870674**
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

OAK AM BETROL, DEISEL OLEW AC AMRYFAL ANRHEGION MODURO OAK
**GORSAF BETROL LONDON GARAGE**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn: Llanberis 872046**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

SWYDDFA'R POST
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym menter gymunedol
**CYFEILLION Y CWM A SWYDDFA'R POST CWM Y GLO,**
POST: 9-12 Llun Mawrth, Iau, Gwener 9-11 Mercher. Ar gau Sadwrn
SIOP: 9-12 Llun – Iau, 9-4 Gwener, 10-12 Sadwrn
**Ffôn: 872722** Diolch am eich cefnogaeth yn 2000
Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2001

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
**LONDON GARAGE**
**Cwm-y-glo**
**Ffôn: 870234**
Ar agor: 9-5 Llun – Gwener
9-1 Sadwrn
MOT. Disel, Petrol Gwasanaeth ac Atgyweirio

**Cyfarchion Nadolig CWM-Y-GLO**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth
**MIN a RAY**
Perchnogion Newydd Gwesty'r
**SNOWDON/FRICSAN**
**Cwm-y-glo**
**Ffôn 870289**
Byddwn ar agor dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd
Cofiwch bob dydd Sul am £4.99
Cinio Rhost blasus dau gwrs

# CWM Y GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, 6 Tachwedd. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Menna Roberts a Mrs Dorothy Jones. Darllenwyd munudau o'r pwyllgor a gafwyd y llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Cafwyd adroddiad gan Mrs Joyce Ransom (Trysorydd) am y sefyllfa ariannol. Etholwyd Mrs Margaret Latham fel Swyddog Cofrestru; Mrs Hilda Orritt yn Ysgrifennydd (dros dro); Mrs Joyce Rawson, Trysorydd; Ymwelwyr y Gwael: Mrs Enid Taylor (Llanrug), Miss Meira Williams (Cwm-y-glo). Bydd cyfarfod y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Mair Bangor ar 28 Tachwedd am 11 y bore. Cynhelir gwasanaeth a Charolau yn Hafan Elan nos Lun, 4 Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb. Cydymdeimlwyd â Mrs Sandra Hughes yn ei phrofedigaeth yn ddiweddar. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor. Hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs Roberts. Doedd dim arall i'w drafod a threfynwyd gyda'r Gras.

DIOLCH. Dymuna Jean Maldwyn a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt wedi colli Mam a Nain annwyl.

Diolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Ymchwil i Alhzeimers.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Maldwyn Hughes, Alwyn a Sian, 2 Bryn Gro yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Esme Jones a'r teulu, 24 Dôl Afon yn eu profedigaeth o golli nai.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs H.M. Roberts, 1 Bryn Gro ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Joyce Jones, Bod Elan yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH
**MORRIS BROS.**
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430
HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**
**Richard S. Humphreys**
FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm-y-glo**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
*oddi wrth bawb ym*
*Menter Fachwen*
*Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol 2000*
*Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall lwyddiannus yn 2001*

CAPEL Y TABERNACL. Trefn yr Oedfaon am fis Rhagfyr.
3: Clwb y Plant am 2.00; Parch John Treharne am 4.00;
10: Clwb y Plant am 2.00; Gwasanaeth yng ngofal Mrs Cassie Thomas, Dr Graham Thomas ac aelodau Clwb y Plant am 4.00;
17: Clwb y Plant am 2.00; Parch Gwynfor Williams am 4.00;
24: Dim Gwasanaeth;
31: Clwb y Plant am 2.00; Parch Hugh G. Roberts am 4.00.

Nos Iau, 21 Rhagfyr cynhelir Noson o Garolau am 6.30 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i bawb ymuno yn y gwasanaethau, hefyd i blant rhwng 8 ac 13 i ymuno yng nghlwb y Plant.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON. Trefnir noson o Ddawnsio Llinell ar Ragfyr 1 am 8 o'r gloch yn y British Legion, Llanberis. Pris fydd £4. Mae bws wedi ei drefnu am £2 yn codi yn Neiniolen, Penisarwaun, Llanrug a Chwm-y-glo. Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth ar 871677.

NOS LUN, RHAGFYR 11. Bydd Noson o Garolau yng nghwmni Band Llanrug am 6.30 yn Ysgol Cwm-y-glo. Ceir paned a mins pei a'r pris mynediad fydd £1.

DYMUNA'R Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

EGLWYS SANT GABRIEL. Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 15 Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Rheithor, y Parchedig Philip Hughes. Nos Sul, Pregeth a Gosber gan y Parchedig Susan Owen, Ficer Beddgelert a Phenrhyndeudraeth.

Yr Organyddes oedd Mrs Susan Williams, Ceunant. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy am eu gwasanaeth. Dymuna'r Rheithor a'r wardeniaid ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau hardd yn ystod yr Wyl.

CYNGERDD. Nos Lun, Hydref 16 cynhaliwyd cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa a Chôr Meibion Dyffryn Peris yng Nghapel y Tabernacl. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel. Dymuna'r Rheithor ddiolch yn fawr iawn i Hogia'r Wyddfa a'r Côr a'u harweinyddes, Mrs Mair Hughes, am eu gwasanaeth. Hefyd diolch o galon i Mrs Hefina Jones a Mrs Annette Bryn Parri wrth yr offeryn. Dymuna'r Parch Philip Hughes ac aelodau Eglwys Sant Gabriel ddiolch o galon i'r Parch Gwynfor Williams ac aelodau'r Capel am gael ei ddefnyddio ar ei newydd wedd. Hefyd, dioch i bawb am droi i fyny i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Hefyd diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth.

ENILLWYR Y RAFFL FAWR.
1. Mrs Jones, 8 Rhosrug, Llanrug; 2. Mr Gareth Humphreys, Caernarfon; 3. Mrs Betty Jones, 19 Hafan Elan, Llanrug; 4. Mr Emlyn Morris, Trefeilian, Waunfawr; 5. Mrs Marian McGuinness, Station Road, Llanrug; 6. Mrs Dorothy Jones, Fron Gadair, Cwm-y-glo; 7. Kenny, Maes Padarn, Llanberis; 8. Ifan Gwyn, Gwêl Elidir, Cwm-y-glo; 9. Mr E.L. Jones, Llythyrdy, Llanrug; 10. Mr J. Jones, 49 Maes Padarn, Llanberis; 11. Mr Elfed Roberts, 1 Min y Parc, Tan-y-coed, Llanrug; 12. Mrs Glenda Roberts, 2 Tan Lan, Llannor, Pwllheli; 13. Mr E. Owen, d/o Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis; 14. Mr Martin Murphy, Penscoins, Felinheli; 15. Mr Tony Thomas, Gwynfryn, Bethel; 16. Mrs Jones, 48 Dôl Elidir, Llanberis; 17. Mr Hefin Jones, Dolwen, Pont-rhythallt, Llanrug; 18. Mr O.P. Jones, 12 Trem Eryri, Porthaethwy; 19. Mr Davies, Modurdy'r Wyddfa, Llanberis; 20. Mrs Williams, Arfon House, Saron, Bethel; 21. Mr Don Williams, 36 Bro Rhyddallt, Llanrug; 22. Mrs Ellen Jones Parry, Pen-y-bryn, Llanfaglan; 23. Mrs Christine Jones, Bryn, Bontnewydd; 24. Euron Evans, Min-y-don, Brynrefail.


MENTER FACHWEN

**FFAIR NADOLIG**

**Caban y Cwm**
**Cwm y Glo**

**Dydd Iau, Rhagfyr 7fed**
**o 11 a.m hyd 8 p.m.**

Disgwylir **Gerallt Pennant** yno am 11 y bore
i lansio'r Cynllun Compostio

Paned a mins pei
Byrddau gwerthu
Raffl, Tombola a llawer mwy

*Cofiwch droi i mewn yn ystod y dydd*

CROESO I BAWB

(Ni fydd bwydlen arferol y caffi yn cael ei chynnig ar y diwrnod yma)


## Clwb Eryri

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Eryri yn y Fictoria, nos Wener, 3 Tachwedd. Yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd cyfeiriwyd at waeledd rhai o'r aelodau a dymunwyd adferiad buan iddynt. Amlwg oedd absenoldeb yr Ysgrifennydd/Bardd. Da oedd deall fod Iolo Huws Roberts yn gwella'n foddhaol yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Hyfryd oedd llongyfarch John Norman Davies unwaith yn rhagor. Enillodd gadair arall i'w gasgliad niferus. Y tro hwn mewn eisteddfod yng Nghanolbarth Cymru.

Diolchwyd i Gwynn Davies am lenwi swydd y Bardd. Gwnaeth hynny mewn modd teilwng tros ben. Cafwyd cân ysgafn ganddo, yn dilyn gyda chasgliad o englynion.

Cyflwynwyd y gweithgareddau i Lywydd y Noson, sef Bert Parry. Yn dwt a chryno cyflwynodd yntau'r siaradwr, Geraint Elis. Bachgen o'r Nant, yn fab i'r diweddar Perisfab a fu'n aelod ffyddlon o Glwb Eryri tros lawer blwyddyn. Yn dilyn ei addysg yn Ysgol y Nant, Ysgol Brynrefail a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, bu Geraint yn athro am gyfnod, yna'n swyddog yn Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd. Y mae yn awr yn Swyddog Addysg i Gyngor Môn.

Caed sgwrs ddiddorol tros ben gan Geraint ar y testun 'Esblygiad'. Bu'n olrhain y pwnc o gyfnod creu'r byd drwy'r oesau i gyfnod y Tadau Pabyddol, Sant Augustus, Charles Darwin, ac i'n dyddiau ni.

Mewn trafodaeth yn dilyn y sgwrs caed barn yr aelodau ar esblygiad. Credai pawb fod esblygiad naturiol yn hanfodol i fywyd barhau. Yr oedd esblygiad er lles iechyd yn dderbyniol hefyd ond caed cryn amheuaeth o'r ymarferion gwyddonol a gynhelir y dyddiau hyn.

Diolchwyd i'r siaradwr ac i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson, gan Ralph D. Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Rhagfyr 1. Y siaradwr fydd Frank Green gyda Geraint Huws Roberts yn llywyddu.

## Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail





# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

DYMUNA Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

URDD ADRAN BENTREF. Ymaelododd 36 o blant nos Fercher Tachwedd 1, cafwyd Bingo i gychwyn y tymor. Tachwedd 8 mwynhawyd gêm Chwilen. Tachwedd 15 cafwyd hwyl yn chwarae gemau hefo Jean Jones. Tachwedd 22 cafwyd Cwis yng ngofal Leslie Larsen. Tachwedd 29 bydd gwaith llaw Nadolig.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i Danny Webb, Annie Hughes, Mr Salisbury a Carol Porter wedi'u triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion a gwellhad buan i Eurgain Haf wedi'i thriniaeth yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd. I bawb arall sy'n sâl yn y pentref brysiwch wella i gyd erbyn y Nadolig.

DIOLCH. Dymuna Carol Porter ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau wedi ei gwaeledd yn ddiweddar.

DYMUNA Eurgain Haf hefyd ddiolch i'w theulu am bob gofal ac i'w ffrindiau am y toreth cardiau a galwadau ffôn wedi ei thriniaeth yn ddiweddar. Roedd yn codi'r galon i dderbyn cymaint o gardiau o adref! Diolch yn arbennig i Angharad Preis, ei ffrind ers y dyddiau cynnar am ei hymweliadau cyson i'w chartref yn Nhreganna ac i Ffion Orwig am alw i'w gweld hefyd. Roedd hyn yn gysur mawr.

CINIO NADOLIG Y PENSIYNWYR. Cynhelir Cinio'r Pensiynwyr eleni yng Ngwesty Gwydir, Betws-y-coed ar Sadwrn, Rhagfyr 16. Bydd bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol Gynradd am 12 o'r gloch, ac yn codi rhai yn ymyl Siop Gron.

Os nad ydych wedi rhoi eich enwau a wnewch chi wneud hynny yn ddiymdroi os gwelwch yn dda i Mrs Janet Ash, Ffôn: 871265. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r gwahanol weithgareddau i godi arian yn ystod y flwyddyn.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Pob dymuniad da i Heddwen Hughes ar ei phen-blwydd yn 40 oed. Ar Ragfyr 1 bydd Philip Jones, 8 Bryn Tirion yn 50 oed. Pob bendith i ti Phil oddi wrth y teulu a'th ffrindiau i gyd.

Dymuniadau da hefyd i Mr Evan Wyn Jones, 3 Bryn Tirion ar gyrraedd oed yr addewid, 70 oed. Pob bendith i'r dyfodol.

Dymunir Pen-blwydd Priodas Berl hapus i Carol a Len Porter. Llawer o gariad gan Mark a Nia a'r teulu a'r ffrindiau i gyd.

TRIP SIOPA NADOLIG. Bydd Trip Siopa Nadolig ar Ragfyr 8 gan aros am noson yng Ngwesty'r Adelphi, Lerpwl. Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 8.00 ac ym Mhenisarwaun o gwmpas 8.05.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: 1. Kay Snowdon, Rhyd y Groes, Pentir; 2. Elwyn Williams, Bryn Rhydd Mawr; 3. Eiriona Williams, Glyn Euron.

Nos Wener, Tachwedd 17 gydag Arwel Jones fel arwerthwr arbennig o brofiadol a hwyliog cynhaliwyd Ocsiwn Addewidion a llwyddwyd i gasglu yn agos iawn, iawn i £800 o fewn rhyw ddwy awr. Roeddent yn addewidion gwerth chweil a dymunir diolch o galon i ffrindiau a busnesau lleol am eu haelioni. Diolchir i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith caled ac yn arbennig i Gwen Griffith a wnaeth y gwaith mwyaf fel Is-ysgrifennydd. Diolch Gwen am dy effeithiolrwydd, gan sicrhau Ocsiwn hynod o drefnus a hwylus. Diolch Arwel am lywio'r Ocsiwn mor ddifyr i bawb a llwyddo i werthu popeth mor ddiffwdan – dyma un o'r nosweithiau gorau eto i godi arian. Enillwyr y raffl oedd Judith, Gwen a Susan.

Cynhelir *Noson Wasael* nos Iau Rhagfyr 21 am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Cymerir rhan gan rai o'r plant ac oedolion a bydd cyfle i bawb gael canu yr hen garolau cyfarwydd. Bydd pwnsh, diod oren a mins pei i bawb. Felly dowch i ddathlu Nadolig 2000 gyda'n gilydd.

CYFRES Y CEWRI 22. Rydym yn falch fel pentrefwyr Penisarwaun a phobl y Fro o longyfarch Arwel Jones ar ei lyfr "Y Stori tu ôl i'r Gân".

Dyma a ddywedir amdano: "Mae'r awdur yn un o wynebau mwyaf cyfarwydd Cymru ar lwyfan a sgrîn, ond yn yr hunangofiant hwn cawn y fraint o fynd dan yr wyneb a chael golwg ar ei fagwraeth yn 'hen bentref bach Llanbêr'."

Rydym ninnau yn falch mai yma ym Mhenisarwaun y mae wedi ymgartrefu bellach ac yn wir ddiolchgar iddo am ei gyfraniadau i weithgareddau'r pentref bychan yma hefyd. Llongyfarchiadau mawr, Arwel!

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Y mae'r athrawon a'r plant yn dymuno pen-blwydd hapus arbennig i Mr Evan Wyn Jones, Arolygwr ffyddlon yr Ysgol Sul ers blynyddoedd. Diolchir i'r plant am wasanaeth arbennig o dda i ddathlu Diolchgarwch 2000. Gwnaed casgliad sylweddol tuag at brynu llyfrau i'r plant.

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig fore Sul, Rhagfyr 17 am 10.00. Y thema fydd 'Nadolig Prysur Pori'r Pry Copyn'. Croeso cynnes i bawb.

PARTI NADOLIG YR YSGOLION SUL. Cynhelir Parti Nadolig Ysgol Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen bnawn Iau, Rhagfyr 21 o 2 –4 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys. Byddwn yn dra diolchgar o gyfraniadau tuag at y parti. Mae Siôn Corn wedi addo dod i weld y plant.

EGLWYS SANTES HELEN. Cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn ystod mis Rhagfyr gyda chyfraniad gan aelodau'r Ysgol Sul. Bydd y casgliad yn mynd at achos da. Cyhoeddir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Noswyl Nadolig, gwasanaethir y Cymun Bendigaid am 11.30 y.h. Croeso cynnes i bawb.

YSGOL GYNRADD. Yn ystod mis Tachwedd cafwyd Gweithdy Iaith i'r Babanod yng nghwmni Catherine Aran a Mair Wynn Hughes gyda Blwyddyn 5 a 6. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol nos Iau, Rhagfyr 14 am 6 o'r gloch. Mynediad drwy docyn yn unig – pris £2. Gwahoddir Henoed y pentref i'r ymarfer llawn am 1.30 y pnawn yn rhad ac am ddim.

Dyddiad cau 'Bocsys Plentyn y Nadolig' fydd Mercher, Rhagfyr 13.

Bydd croeso i blant sy'n cael brechdanau ymuno yn y Cinio Nadolig ar Ragfyr 12.

Gobeithir cynnal Disgo i'r plant cyn cau am y gwyliau yng ngofal Cyfeillion yr Ysgol.

Ar ddechrau 2001 trefnir 'Noson Gerddorol'. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.



*Mae rhywbeth bach yn poeni pawb*
*Nid yw yn nef ymhobman,*
*Yr hyn sy'n poeni'r pentref hwn*
*Yw defaid Eifion, Winllan.*

EISTEDDFOD BENTREF PENISARWAUN. Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus ar nos Wener, 20 Hydref ym Mhenisarwaun. Braf oedd gweld cymaint wedi cystadlu ym mhob adran. Roedd safon y gwaith yn uchel ac yn achosi trafferth i'r beirniaid i ddewis enillydd yn aml iawn.

Dywedodd Mr John Meirion Morris, y Beirniad Arlunio, "Mae'r safon arlunio yn yr Eisteddfod hon yn dda. Y peintiadau gorau ydi'r plant hynny sydd wedi mynegi eu teimladau mewn lliw, ton a ffurf yn effeithiol." Roedd ei sylwadau ar ddatblygiad y plant yn yr adran arlunio o gymorth mawr i'r athrawon a'r rhieni. Dyma rywun sy'n gwerthfawrogi y 'llanast' a 'sgribl' plant bach ac yn gweld yn hynny symbolau o fyd y plentyn.

Cystadleuaeth newydd oedd 'unrhyw lun wedi'i wneud ar gyfrifiadur' ac roedd yn un poblogaidd iawn efo'r safon gorau o'r gwaith adran Arlunio. Roedd y plant yn ffodus o gael cymorth gan yr ysgol a defnyddio'r cyfrifiaduron yno. Roedd staff yr ysgol wedi bod yn gweithio'n galed mewn sawl adran arall hefyd, yn cynhyrchu gwaith ar gyfer yr adrannau Rhyddiaith ac Arlunio.

Llywydd y noson oedd Mr Trystan Larsen, Prifathro Ysgol Rhostryfan. Cafodd y plant, yn enwedig yr hogia, hwyl yn clywed straeon o 'misspent youth' y prifathro hwn! Carys Edwards a Mair Penri o'r Bala oedd ein Beirniaid Cerdd ac Adrodd ac fe gawsom hwyl yn eu cwmni.

O gyfraniad yr oedolion i'r noson, roedd 'Cyflwyniad Dramatig' gan deuluoedd Phillips (Tai Arthur) a Jones (Bryn Eglwys) a phortread Merched y Pwyllgor o 'Defaid William Morgan' (ynteu 'Defaid Eifion Harding') yn hwyliog iawn. Enillydd cystadleuaeth gorffen limrig oedd 'Blodyn' (Miss Dilys Mai Roberts)

Aeth genod y pentref i ddawnsio
Yn grand yn eu dillad Bolero,
Ond syrthio wnaeth un,
Yn fflat ar ei thin;
O! Glywsoch chi roed y fath gwyno!

Hwyl ydi'r Eisteddfod hon yn bennaf. Cyfle i'r pentref ymuno â'i gilydd, meithrin talentau'r plant a mwynhau'r cyfoeth o dalentau lleol. Diolch yn fawr i bawb a gystadlodd, y beirniaid, a phawb fu'n helpu ar y noson.


Harddwch eich cartref gyda
**FFENESTRI CELTIC** WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
**(01286) 678618 (dydd)**
**(01248) 670081 (nos)**
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MYND I GRWYDRO. Dymuniadau gorau Mari, un o efeilliaid Bet a Siriol, 2 Tan y Cae a Meinir, merch Collwyn a Rita, 4 Tan y Cae fydd yn cychwyn ar eu taith i Awstralia ar 26 Rhagfyr. Mae Emma, Ffion, Gethin, Guto a Tomos Meredydd yn falch mai ddiwrnod ar ôl y Nadolig maent yn cychwyn! Siwrna saff genod a mwynhewch. Blwyddyn Newydd Dda ynghanol yr haul.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr mis Hydref:
£20: Lynnwen Morris, Perthi (40); £10: Wyn Evans, Parciau, Rhos (194); £5: Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd (65); Judith Rees, Gwelfor (201); Geraint Elis, Cilgeran (97); Glenys Griffiths, Llwyn Eithin (142); Nancy Humphreys, Ty'n Rhos (149); Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220); Myrna Owen, Camlan (117); Myfanwy Harper (54).

PRIODAS. Martin – Parry.
Dydd Sadwrn, Medi 16 yng Nghapel y Cysegr, Bethel priodwyd Ruth Wyn Parry, unig ferch William a Nora Parry, 11 Tan-y-buarth a Nicholas Peter Martin, mab Patrick a Sandra Martin, 5 Buckingham Grove, Timperley, Cheshire.

Gwasanaethwyd gan y Parchedig W.R. Williams. Yr organyddes oedd Mrs Glenys Griffiths a'r delynores oedd Miss Meilys Haulfryn Williams. Y gwas priodas oedd Christopher Philip Martin a'r morwynion oedd Lynn Crowther Roberts, Bethan a Rhian Hope Price a Claire Angela Martin. Y tywyswyr oedd Elwyn Hope Parry a Michael James Martin a'r macwy bach oedd Elwyn Rhys Parry. Trefnwyd blodau'r capel gan Mrs Edwina Morris. Cynhaliwyd y wledd briodasol a'r parti nos yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis a threuliwyd y mis mêl yng Ngroeg.

DIOLCH. Dymuna Ruth a Nicholas ddatgan eu diolch am y llu anrhegion a'r cardiau a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y diwrnod yn un arbennig.

DYWEDDÎO. Llongyfarchiadau i Llinos Angharad Morris, Perthi ar ei dyweddïad.

YR EISTEDDFOD. Cafwyd eisteddfod lewyrchus iawn eto eleni gyda chystadlu brwd ac o safon arbennig o uchel, yn y Noson Dawnsio nos Iau, 9 Tachwedd ac yn yr Eisteddfod ei hun brynhawn a nos Sadwrn, 11 Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr i'r cystadleuwyr i gyd ac yn arbennig i Ceri Griffith ar ennill Tlws yr Ysgol Gynradd a'r Tlws Dawnsio ac i Ffion Meleri Owen ar ennill y Tlws Uwchradd.

Ceir adroddiad llawn a'r canlyniadau ynghyd â pheth o'r cynnyrch buddugol yn rhifyn nesaf yr Eco.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Iau, 23 Tachwedd yn Festri'r Cysegr cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r Parch Emlyn Richards yn sôn am ddylanwadau.

Byrdwn ei anerchiad oedd dylanwad datblygiadau technolegol ar ein bywyd, gan ganolbwyntio ar newidiadau yn ein dull o siopa, newidiadau a welwyd ar ein haelwydydd pan gawsom wres canolog yn lle'r tân a phan beidiodd y pryd bwyd fod yn achlysur teuluol.

Diolchwyd i Mr Richards ar ran y Gymdeithas gan Mr Richard Lloyd Jones.

Nos Fawrth, 12 Rhagfyr cynhelir noson Nadoligaidd yng nghwmni'r aelodau yn Festri Bethel.

MERCHED Y WAWR.
Cyfarfu'r aelodau yng Nghrefftau Cae Coch, Llanberis a chafwyd croeso arbennig gan Pat Jones ac Anita Lang. Bu Anita yn dangos ei chrefft o gynllunio cardiau ar gyfer gwahanol achlysuron, a mwynhawyd paned a theisen yn y caffi. Enillwyr y raffl oedd Margaret Eckley ac Anne Elis.

Mae nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Carolau y Rhanbarth yng Nghaernarfon ar nos Sul, Rhagfyr 3. Tocynnau ar gael gan Eirlys neu Glenys. Bydd y bws yn cychwyn i'r swper Nadolig am 7 o'r gloch o Benrhos, nos Fercher, Rhagfyr 13.

CYDYMDEIMLIR ag Owen a Bet, plant Mrs Jones, Isfryn (Tŷ'n Cred gynt) fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

## Rhodd yn Lle Anrheg

Mae gŵr a gwraig o Fethel wedi cyfrannu £440 i Gymdeithas Cleifion yr Arennau wrth iddynt ddathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar. Penderfynodd Tom a Nan Owen ofyn i'w cyfeillion a'u teulu gyfrannu at yr elusen yn hytrach na phrynu anrhegion iddynt hwy. Mae Mr Owen wedi bod ar beiriant deialisis ers tair mlynedd a hanner, ac mae'r ddau ohonynt yn gwerthfawrogi gwaith y Gymdeithas yn fawr iawn.

## DYDDIADUR RHAGFYR 2000

**1 Gwe:** **DEINIOLEN**. Ffair Nadolig Plaid Cymru yn yr Ysgol am 7 o'r gloch.
**4 Llun:** **LLANRUG.** Gwasanaeth Carolau yn Hafan Elen.
**5 Maw:** **LLANBERIS.** Bore Coffi yn Festri Capel Coch o 10.30 hyd 12.00.
**6 Mer:** **LLANBERIS.** Noson o gân yng nghwmni Côr Eryri yn yr Amgueddfa am 7 o'r gloch.
**8 Gwe:** **WAUNFAWR.** Cinio Nadolig Sefydliad y Merched.
**DEINIOLEN.** Cinio Nadolig Cyfeillion Llandinorwig.
**11 Llun:** **CWM-Y-GLO.** Noson o garolau yn yr Ysgol.
**12 Maw:** **BETHEL.** Noson Nadoligaidd yn y Festri.
**13 Mer:** **DEINIOLEN.** Cyngerdd Nadolig Ysgol Gwaun Gynfi.
**14 Iau:** **PENISARWAUN.** Gwasanaeth Nadolig yn yr ysgol am 6 o'r gloch.
**17 Sul:** **BRYNREFAIL.** Gwasanaeth Nadolig yn y Festri am 2.
**PENISARWAUN**. Gwasanaeth Nadolig am 10 y bore.
**DEINIOLEN**. Gwasanaeth Undebol yn Eglwys Llandinorwig am 5 o'r gloch.
**21 Iau:** **CWM-Y-GLO.** Noson Garolau am 6.30 yng Nghapel Tabernacl.
**WAUNFAWR**. Noson o ganu carolau o gwmpas y pentref, ac wedyn yn y Ganolfan.
**PENISARWAUN**. Parti Nadolig yr Ysgolion Sul.
**PENISARWAUN**. Noson Wasael yn y Neuadd am 6.30.
**24 Sul:** **DEINIOLEN**. Gwasanaeth y plant yn Ebeneser am 10.
**PENISARWAUN**. Cymun Bendigaid yn yr Eglwys am 11.30 yr hwyr.
**25 Llun:** **DYDD NADOLIG**




SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffoniwch (01286) 830609
– TENEUWCH –
SLIM CHWIM MEWN DIM!

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher




Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

CO-OP LLANRUG
* Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU
* Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.
bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y ty yn lleol
Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

# NEWYDDION O YS

## Plant Mewn Angen




I apêl Plant Mewn Angen eleni penderfynodd pedwar o hogiau chwеched dosbarth Brynrefail, sef Owain Sion, Huw Evans, Iwan Parry Jones a David Herbert shafio eu gwalltiau i gasglu arian i'r elusen. Llwyddodd y pedwar i gasglu dros £150 rhyngddynt. Hoffai'r pedwar ddiolch i bawb sydd wedi eu noddi ac, yn enwedig, i siop trin gwallt 'Elaine's' yn Llanrug a dorrodd walltiau'r hogiau am ddim a chyfrannu tuag at yr achos.

## Ymweliad Cwmni Dawns Diversions



Daeth dau aelod o'r cwmni enwog yma i'r ysgol i ddysgu gweithdy dawns i ddisgyblion TGAU Addysg Gorfforol bl.10. Cawsant brofiadau gwahanol ac addysgiadol iawn ac roeddynt i gyd yn llawn edmygedd o'r dawnswyr, a bydd nifer o'r disgyblion yn mynd i Theatr Gwynedd i weld y cwmni yn perfformio.

## Ein Harwr



Dyma rai o'r disgyblion a aeth i gefnogi Marcus Orlik pan chwaraeodd i Gymru yn erbyn Lloegr yn y Drenewydd. Er bod y tywydd yn ddiflas cafodd y cefnogwyr brwd ddigon o wledd i'w cynhesu fel y gwelwn o'r wynebau hapus yma.

## Sylwadau 7N



Mae disgyblion blwyddyn 7 bellach wedi cael amser i setlo i lawr yn yr ysgol ac, yn wir, yn teimlo'n eithaf cartrefol erbyn hyn. Rai wythnosau yn ôl gofynnwyd iddynt beth oedd eu teimladau am yr ysgol newydd a dyma rai o sylwadau 7N.

*'Mae'n grêt cael symud o ddosbarth i ddosbarth i wahanol wersi a chael athrawon gwahanol trwy'r dydd,'* medd Elan, Siôn, Mathew, Cassey a Dylan.

Calvin *'yn hoffi cael defnyddio'r cyfrifiadur.'*

*'Pynciau newydd fel Ffrangeg sy'n rhoi cyfle i ni ddysgu iaith newydd,'* oedd sylw Ffion ac Elin.

Anwen wedi rhyfeddu cymaint o ffrindiau newydd mae wdi eu gwneud, ac yn cytuno hefo hi mae Jason, Carmen, Donna, Bedwyr, Elgan ac Alex.

*'Cinio blasus, hefo digon o ddewis,'* sy'n bwysig i Ceri, Jaco a David.

*'Clybiau amser cinio'n grêt!'* – Carwyn a Heulwen.

Luke ddim yn siwr iawn am y crwydro o wers i wers, ond fe ddaw i arfer rwy'n siŵr.

*'Hwyl wrth deithio ar y bws ysgol,'* medd Gemma, Robert, Claire a Dionne.

*'Pawb yn cael cyfle i fod mewn timau chwaraeon, cyfle cyfartal i bawb ac addysg ardderchog,'* oedd sylw treiddgar Lowri.

## Criw Glanllyn



Roedd y daith i Glanllyn yn hir ond yng nghwmpeini fy ffrindiau ysgol a'm ffrindiau newydd o Ysgol Syr Hugh Owen fe aeth mewn dim. Cawsom lawer o hwyl ond doedd clirio'r sbwriel ddim yn fwynhad!

Dychryn wrth weld y niferoedd ar ôl cyrraedd ond setlo i lawr yn sydyn a chymysgu a chymdeithasu.

Gweithgareddau di-ri, sgïo ar y llethr sych yn hwyl, bechod nad oedd eira iawn yno! Taith o amgylch y llyn yn y cwch a glanio i weld arwydd amlieithog yn rhybuddio rhag y trên. Sbort wrth ddysgu canwio er ein bod wedi gwlychu yn arw!

Ond, gyda'r nos, cael hwyl yn y bowlio deg, y llafn rowlio, nofio ac, wrth gwrs, y disgo – lle gwnaeth ambell un ffrind arbennig iawn.

Y daith gartref yn hirach oherwydd roeddym oll wedi blino ac eisiau cysgu! Llawer yn teimlo'n sâl oherwydd eu bod wedi bwyta gormod o dda-da.

Pen-wythnos bendigedig a llawer o ddiolch i Mr Dylan Huw Jones a Mr Elfyn Roberts am fynd a ni, a bod yn gyfrifol amdanom.

Sophie Gordon, Jake Burston
a Fflur Griffiths, 8S

# Lluniau'r Cinio








# Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail

(Yr ail ran – i'w osod tu fewn i'r rhan gyntaf yn y rhifyn diwethaf)

## Prysurdeb

**Argraffiadau Sian Green, Prif-ddisgybl presennol yr Ysgol**

Cyrhaeddodd wythnos dathlu'r Canmlwyddiant, ac wythnosau o ymarfer wedi dod i ben. Ofnwn y byddwn, gydol yr wythnos, yn sefyll rhyw fath o brawf ac y byddai'r cyn-ddisgyblion yn barnu safon yr ysgol heddiw wrth ein barnu ni.

Cychwynodd y dathliadau ddydd Sadwrn, Medi 23ain, gyda diwrnod agored yn yr Ysgol. Cefais hwyl wrth edrych ar luniau fy mrawd a chwaer a chyfoedion yn ogystal ag amryw o luniau cyn-ddisgyblion. Fe'm syfrdanwyd gan luniau o fy athrawon a dynnwyd dros ugain mlynedd yn ôl. Roedd yn rhaid chwerthin ar y ffasiynnau a'r gwalltiau! Yn wir, roeddwn wedi synnu o weld fod gan rai o'm hathrawon wallt ar un cyfnod!

Ymlaen i hwrli-bwrli ac anrhefn y nos Sadwrn yng ngwesty'r Victoria ble roeddwn yn ceisio gweini ar 180 o athrawon a chyn-ddisgyblion swnllyd. Er ein bod yn brin o staff roedd arna'i eisiau i'r noson fod yn un llwyddiannus ac arbennig ar gyfer yr holl bobl hyn – gan mai eu noson hwy ydoedd.

Daeth Ddydd Sul, a chywair gwahanol i'r dathlu, gyda gwasanaeth o ddiolchgarwch yng Nghapel Coch, Llanberis. Roedd rhyw naws cysegredig a myfyrgar yn perthyn i'r achlysur yma. Gwrandewais yn astud ar anerchiad difyr Bryn Williams a mwynheais yn fawr y canu cynulleidfaol.

Cyrhaeddodd nos Lun, y Noson Atgofion, ynghyd â phanig llwyr: Mam yn smwddio crys, Dad yn sgleinio sgidiau a minnau yn ymarfer darllen y cywydd. Llwyddais, er fy mod yn crynu fel deilen, i ymlacio a gwrando ar Mair Parry, Huw Ronald Roberts, Emlyn Sherrington, Maureen Rhys a Michael John Williams yn adrodd eu hanesion ac yn pwysleisio eu dyled i'r ysgol. Arabedd pob siaradwr yn llifo mor rhwydd â gwin coch y nos Sadwrn cynt. Yna sylweddolais fod yn rhaid i mi ddilyn yr holl bobl yma! Darllenais y cywydd a ysgrifenwyd ar gyfer yr achlysur gan y Prifardd Dafydd John Pritchard. Teimlais ryddhad mawr ar ôl gorffen. Wedyn, wrth fwyta a sgwrsio sylweddolais mai, yn y bôn, dim ond pobl gyffredin fel fi oedd y cyn-ddisgyblion.

Wedi'r holl ymarfer a pharatoi, perfformwyd "Babi Bach y Wern" i neuadd werthfawrogol ar y nos Fercher. Mor falch yr oeddwn fod Gareth Hughes Jones wedi dychwelyd ar gyfer y noson i'n harwain yn y band.

Ymlaen i Nos Wener a'r Cyngerdd. Noson fythgofiadwy oedd hon yn rhoi cyfle i bawb oedd yno werthfawrogi amrywiaeth y doniau a feithrinwyd yn Ysgol Brynrefail dros y blynyddoedd. Cafwyd cyferbyniad rhwng y cyfoes (Epitaff a Caban) a'r mwy traddodiadol fel Hogiau'r Wyddfa, y corau a'r bandiau pres, a band jazz yr ysgol. 'Uchafbwynt yr wythnos' yn nhyb llawer un. Ond ai dyma uchafbwynt yr wythnos i mi? Nage.

Yr hyn a werthfawrogais i fwyaf oedd y teimlad o undod a dreiddiai drwy'r wythnos; pob unigolyn yn rhannu'r teimlad o berthyn i'w gilydd oherwydd yr ysgol. A dyma fydd yn aros gyda mi am byth.







# OEDFA'R DATHLU

**gan Huw Gwynfa Roberts**





Pan alwyd y pwyllgor cyntaf i drafod dathlu canmlwyddiant yr Ysgol a mynd ati i drafod dull a modd y dathlu, cyn cael awgrym am ddim arall, dywedodd llywydd y cyfarfod a Phrifathro'r Ysgol, Eifion Jones, fod yn rhaid cael oedfa o ddiolch. Teg cofnodi hyn, a mawr glod a diolch iddo.

Cynhaliwyd yr Oedfa bnawn Sul, 24 Medi 2000 yng Nghapel Coch, Llanberis, gyda chynulliad teilwng wedi dod ynghyd. Hyfryd oedd gweld cyn ddisgyblion oedd wedi teithio o gryn bellter yn y gynulleidfa. Diolch i swyddogion eglwys Capel Coch am yr hwylustod o gael defnyddio'r adeiladau.

Roedd is-bwyllgor wedi ei ethol i drefnu'r oedfa, sef y Parchg John Pritchard, Mrs Nora Breeze, Mr Rolant Wynne a minnau, a chyfetholwyd Mrs Mair Hughes a Mr Geraint Ellis atom. Gresyn na bai pob pwyllgor y bu dyn arnynt wedi gweithredu mor ddidrafferth â hwn.

Yn briodol iawn gofynwyd i'r Parchg John Pritchard i ymgymeryd ag arwain y gwasanaeth, a gwnaeth hynny yn ei ddull deheuig a chwrtais ei hun. Erbyn hyn John yw'r unig weinidog llawn amser ar ran helaeth o ddalgylch yr Ysgol. Gwych oedd clywed fod Mrs Lowri Prys Roberts Williams yn derbyn ein gwahoddiad i arwain y gân, â hithau yn un o blant pentref Brynrefail ac yn gyn ddisgybl yr Ysgol. Gwyddom am ddawn a medrusrwydd Lowri ac amlygwyd y ddawn honno y prynhawn hwn. Lowri oedd yn gyfrifol am ddewis yr emynau gogyfer â'r gwasanaeth ac yr oedd ei dewisiad yn hynod addas oherwydd cysylltiadau'r emynwyr neu'r cyfansoddwyr â dalgylch yr Ysgol. Canwyd cyfieithiad rhagorol Alafon (sef y Parchg Owen Griffith Owen a fu'n weinidog Eglwys Ysgoldy Clwt-y-bont) o 'Glân geriwbiaid'; emyn T. Rowland Hughes, un o hogiau Llanbêr, 'Tydi a roddaist'; ac emyn un o'n hemynwyr cyfoes, Mrs Dilys Baylis, Llanberis, 'Cofiaf amdanat ti' ar dôn ei brawd Edwin Lloyd Jones. Cafwyd canu gwefreiddiol dan arweiniad Lowri, a chredaf y cytunai hi â mi bod medrusrwydd Gareth Jones ar yr organ wedi bod yn gaffaeliad mawr.

Cyflwynwyd yr emynau yn ddeallus gan Siân Green, Prif ferch yr Ysgol a Kelly Elizabeth Williams y dirprwy. Roedd y darlleniadau o'r Beibl gan Geraint Edwards ac Elfed Morgan Morris, dirprwy a phrif fachgen yr Ysgol. Darllenwyd yn drawiadol o Lyfr y Diarhebion ac o Efengyl Mathew, a chredai amryw fel minnau i ni gael rhyw olwg newydd ar yr adrannau hyn. Nid buan yr anghofiwn y parti llefaru yn cyflwyno 'I'r athro' gan Rhys Nicholas ac ni ellid cael darn mwy addas i'r achlysur. Roedd y datganiad yn gaboledig, ag ôl disgyblaeth Nona Breeze yn fawr arno.

Cafwyd dau ddatganiad gan gôr yr Ysgol, sef 'Hawl i fyw' gan Dafydd Iwan a 'Bythol Wyrdd' gan Tecwyn Ifan, a rhaid canmol y côr am ei waith a'r athrawon fu'n eu dysgu. Cafwyd deuawd swynol gan Kate Beard a Sioned Jones a ganodd 'O Nefol addfwyn Oen'.

Mae'n dyled yn fawr i'r disgyblion a'r athrawon am eu trylwyredd gyda'r holl waith paratoi.

Yn y gwasanaeth a gynhaliwyd ar achlysur cau'r hen ysgol ac agor yr ysgol newydd yr oedd litani o weddïau. Gofynwyd i mi lunio litani gyffelyb ar gyfer y gwasanaeth hwn, a chefais y cylfe i'w gyflwyno.

Gwahoddwyd y Parchg Bryn Williams o'r Bala i annerch, yntau yn gyn ddisgybl, â'i fam, Mrs Megan Williams, wedi bod yn ysgrifenyddes yr Ysgol am gyfnod o flynyddoedd. Mae Bryn bellach yn bennaeth canolfan ieuenctid yng Ngholeg y Bala. Roedd yn hynod ddiolchgar o'r fraint o annerch. Roedd ein cydymdeimlad yn fawr â Bryn gan y gwyddai bwrpas y cyfarfod ond heb syniad ganddo am natur ei gynulleidfa, ac anodd oedd meddwl pa drywydd i'w ddilyn. Ond cafwyd pregeth dreiddgar a herfeiddiol wedi ei thraddodi mewn dull a gyffyrddai â phawb, ac yn llawn hiwmor hyfryd. Rydym yn hynod ddiolchar iddo.

Drwyddo draw cafwyd oedfa yng ngwir ystyr y gair, a phrawf o hyn yw'r dystiolaeth a erys o'r fendith a gaed.

Bendith fo ar yr Ysgol i'r ganrif newydd, yn blant, Prifathro ac athrawon gyda'u cyfrifoldeb mawr, a chofiwn eiriau Rhys Nicholas 'I'r Athro'.


Gesyd allweddau diwylliant
mewn dwylo newydd
o dymor i dymor,
ac o'i gydwybod dda y bydd
sefydlogrwydd.
Ei ymgysegriad a ffrwythlona
mewn ufudd-dod
ac mewn disgyblaeth
ac o'i fedr yn gosod sylfeini
y daw iachawdwriaeth cenedl.





# Y NOSON ATGOFION

**Mair Roberts**




Darllenais yn rhywle mai'r rheswm pam 'da ni wedi ein breintio â chof ydi i ni gael mwynhau rhosod ym mis Rhagfyr. Os yw hynny'n wir roedd hi'n beraroglus iawn yn Ysgol Brynrefail trwy wythnos Medi 23ain i Fedi 29ain eleni. Cyn-ddisgyblion oedd heb weld ei gilydd ers blynyddoedd lawer – rhai ers dros hanner canrif a mwy – yn cofleidio, parablu, chwerthin ac, wrth gwr,s yn dymuno cofio fawr ddim ond y cyfeillgarwch, y troeon trwstan, y direidi a'r hwyl. Fe gyfeiriodd James Joyce ryw dro at amser arbennig fel 'Once upon a time and a very good time it was.' Wn i ddim ai fel yna y byddai pawb groesodd riniog Ysgol Brynrefail yn cofio eu blynyddoedd yno, ond rwy'n siŵr mai fel amser da iawn yn byddant yn cofio'r Noson Atgofion ar Fedi 25ain 2000.


Mynd draw i Ysgol Brynrefail wnes i ddiwedd mis Mawrth eleni wedi darllen yn Eco'r Wyddfa anogaeth i bawb oedd â diddordeb mewn dathlu canmlwyddiant sefydlu'r Ysgol i ddod draw am sgwrs. Cefais fy nghodi ar y pwyllgor. Gwyddwn y byddai digon o waith o'n blaenau, ond gyda dipyn o lwc gallai fod yn ddifyr ac felly y trodd allan i fod. Dwi wedi credu erioed os 'da chi wedi derbyn llawer 'dyw ond yn deg eich bod yn trio rhoi yn ôl.

Aelodau'r is-bwyllgor Noson Atgofion oedd Mary Vaughan Jones, Menna Williams, Gwyneth Thomas, Elen Lloyd Jones, Maldwyn Roberts a finnau. Cawsom lawer o hwyl yn trin a thrafod a daethom yn ffrindiau da.

Penderfynwyd gofyn i Rol Williams roi braslun o hanes sefydlu'r Ysgol ym mhentref Brynrefail, ac yna rhannu'r can mlynedd yn bum cyfnod, a chael un siaradwr i gynrychioli pob cyfnod. Roedd dewis annhygoel o siaradwyr cymwys a galluog allai gyflawni'r gwaith, ond penderfynwyd yn unfrydol ofyn i Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Huw Roberts, Pwllheli; Emlyn Sherrington, Bangor; Maureen Rhys, Bangor a Michael John Williams, Leeds, ac rwy'n siŵr mai barn pawb oedd yn y Noson Atgofion oedd na allem fod wedi dewis yn well. Roeddem yn awyddus hefyd i brif ddisgyblion presennol yr Ysgol, Siân Green ac Elfed Morris, gael cymryd rhan, ac roedd eu cyfraniad yn werthfawr.

Roedd un gorchwyl pwysig o'n blaenau fel pwyllgor, sef pwy oedd i ddadorchuddio'r plac oedd i'w roi ar fur y neuadd. Cytunwyd heb ddadl ar Mrs Ieuan James, gweddw Mr Ieuan James a fu'n





gysylltiedig â'r Ysgol am ddeugain mlynedd fel athro a phrifathro, ac a fu ei hun yn athrawes yn yr Ysgol am saith mlynedd. Cysidrodd Mrs James hi'n fraint, ac roedd ei phresenoldeb llednais a hawddgar yn ein mysg trwy'r gyda'r nos yn rhoi urddas ar y cyfan.

Gwerthfawrogwn gyfraniad y Prifardd Dafydd John Pritchard i lwyddiant y dathlu. Cyfansoddodd englyn a chywydd i gofio'r achlysur. Dymunodd Maldwyn Roberts o Wasg Dwyfor wneud cerdyn pen-blwydd a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr. Bydd yn swfenir da o'r dathlu. Rhaid diolch hefyd i Elen Lloyd Jones am y deisen ben-blwydd hardd ac am drefnu'r lluniaeth blasus a chwaethus a fu'n gymaint rhan o lwyddiant y noson. Cheir ddim gwell yn y Savoy.

'Da ni'r cyn-ddisgyblion wedi etifeddu llawer. Gofalwn tra'i fod yn ein gallu, y bydd ein plant a phlant ein plant rhyw ddydd yn gallu bod yn ddiolchgar i ni am yr hyn a etifeddant hwy.















# Argraffiadau o'r Dathlu

**Dafydd Whiteside Thomas**

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf o'r cyfeillion a ddaeth ynghyd i geisio penderfynu sut roedd wythnos y dathlu i'w chynnal, rheidrwydd oedd darllen unwaith eto, lyfr cynhwysfawr y Parch John Pritchard ar 'Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail, Arfon' – ac yn enwedig y cofnodion am y bazaar enwog.

Yn ystod y pedwar diwrnod prysur hwnnw ganrif yn ôl roedd *'arddangosfa ardderchog'* neu *'grand museum'* a oedd yn cynnwys *'chocolate box'* wedi ei gyflwyno gan y frenhines! Doedd bosib y byddai aelodau'r is-bwyllgor a ofalai am yr arddangosfa ar ddiwrnod agoriadol wythnos y dathlu yn medru cymharu â chael gafael ar y fath greiriau gwerthfawr! Ond drwy gysylltu â hwn a'r llall a oedd yn adnabod perthynas pell i hon a hon a fu'n ddisgybl yn yr ysgol 'amser maith yn ôl' daeth llu o luniau, posteri, llyfrau, petheuach printiedig, creiriau, cadeiriau, dillad, bathodynnau, tystysgrifau, cynlluniau, mapiau a hyd yn oed ffyn hoci i ofal y pwyllgor (a doedd â wnelo Yncl Tom Cobli ddim â'r casglu!) a chafwyd arddangosfa gwerth chweil, gyda chyfeillion a chyn-ddisgyblion yn mynnu dod drwy'r drysau cyn amser agor; mor frwd oedd yr awydd i ddod yn ôl i'r hen ysgol.

Bu amryw yn ddigon caredig i gynnig lluniau yn rhoddion i'r ysgol, eraill yn fwy na pharod i lenwi bylchau gogyfer â lluniau neu gystadleuthau: cronfa o wybodaeth gogyfer â'r rhai fydd yn dathlu'r daucanmlwyddiant. Sleidiau Miss Parry Biol yn well pictiwrs ar y llwyfan na fu'n yr ardal erioed, a ffilm Keystone Cops Dic Parry am fabolgampau'r ysgol: yr athrawon mewn cotiau trwm, llaes, fel 'tae hi'n g'nhebrwng. Ydi diwrnod mabolgampau ysgol yn draddodiadol rhynllyd deudwch? A phawb yn chwilio am ei lun ei hun: rhai'n cael siom, ond eraill yn gwirioni o sylweddoli iddynt fod, unwaith, yn 'twelfth man' i'r tîm criced neu'n 'first reserve' i'r tîm hoci. A'r cyfarchion gan rai nad oedd wedi cyfarfod ers dyddiau ysgol: *'wela'i di'n y Fic heno'* neu *'wyt ti'n dod i'r Atgofion nos Lun?'* Ac felly yr aeth y diwrnod rhagddo yn un bwrlwm prysur, a phedwar o'r gloch (amser cau) wedi hen fynd heibio, a rhai o'r merched yn malio dim am ddigon o amser i wneud eu gwalltiau erbyn y cinio nos.

Oedd, roedd o'n ddathlu hapus, byrlymus, llawn asbri: ond doedd dim posib gadael i'r cyfan fynd heibio heb feddwl am amryw o gyfoedion a fyddai wedi hoffi bod yno, ond yn methu; ac eraill, mwya'r cywilydd, a ddylai fod yno, ond heb ddod. O edrych yn ôl mewn gwaed oer, sylweddoli mai canran fechan iawn, iawn o gyn-ddisgyblion a fu'n dymuno pen-blwydd hapus i'w hen ysgol. Ond diolch am y rhai sy'n cofio, y rhai sy'n gwerthfawrogi cyfraniad yr ysgol i fywydau trigolion y dyffryn hwn ac i ardaloedd eraill led-led y byd bellach.

Ganrif yn ôl, roedd nain yn cynorthwyo ar yr 'Aster Stall'. Chafodd hi ddim byw i weld 'run o'i phlant yn ddisgyblion ym Mrynrefail. A dyma finnau, ei hŵyr, ganrif yn ddiweddarach, yn daid, a'i blant eisoes wedi bod yn ddisgyblion yno. Er cymaint o 'ddieithriaid' o genedlaethau gwahanol ac o ddegawdau gwahanol a fu'n dathlu'r pen-blwydd, mae rhyw gysylltiadau anesboniadwy yn ein clymu i gyd i'r wê honno sy'n cynnal 'teulu Ysgol Brynrefail'.

Rydw i eisoes wedi gwirfoddoli i gynorthwyo ar bwyllgor dathlu'r daucan-mlwyddiant, ond derbyniwch fy ymddiheuriad, fan hyn, jest rhag ofn...

# Y Sioe Gerdd



# GOL BRYNREFAIL

## Prosiect Murlun Ysgol Brynrefail



*Scot ac Ailsa yn rhoi mwg ar eu platiau metel.*

Bellach mae Nerys Owen wedi bod yn gweithio yn yr adran Gelf ers tua dau fis ac mae'r disgyblion wedi cael llawer o brofiadau newydd. Maent yn gweithio'n galed i greu murlun i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol. Bydd y murluniau terfynol yn gyfuniad o waith disgyblion blynyddoedd 7-13. Bydd un rhan yn canolbwyntio ar hanes yr ysgol a'r hanner arall yn canolbwyntio ar yr ysgol ar hyno bryd.


Yn dilyn yr wythnos dathlu canmlwyddiant yr ysgol mae'r disgyblion wedi bod yn ymchwilio i'r hanes a chreu delweddau. Maent wedi dysgu ffeilio metal, ei orchuddio a'i dduo gyda chanwyll, trosglwyddo cynllun i'r metal ac yna gwneud llingerfiad. Mae'r ystafell gelf yn fwrlwm o waith ac mae Nerys Owen yn brysur yn cael trefn ar bawb a'u cyflwyno i brosesau a sgiliau newydd. Mae yna waith da iawn wedi'i greu'n barod.

Anelir i orffen y murlun eleni. Bydd arddangosfa o'r gwaith a grewyd yn cael ei chynnal yn llyfrgell Caernarfon o gwmpas 19 o Fawrth a'r 20 Ebrill. Cewch fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Noddwyd y prosiect gan arian loteri a gafwyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.



*Owain yn rhoi ei blât yn yr asid.*



*Nerys Owen a Rachel Morris yn argraffu llingerfiad.*

## Llwyddiant y Genethod

Mae'r merched wedi bod yn brysir iawn ym myd y chwaraeon yn ddiweddar a braf iawn yw sôn am eu llwyddiant.

### Hoci

Diana Roberts (bl.12), Claudia O'Donnell (bl.12) a Sian Green (bl.13) fu'n llwyddiannus yn nhreialon hoci Gwynedd dan 18. Chwaraeodd y tair yn Nhwrnament Ysgolion Eryri ac ennill yn erbyn tîm Ynys Môn a cholli yn erbyn Conwy.

Yn nhreialon Gogledd Gwynedd dan 16 bu Sarah Williams (bl. 11) a'i chwaer Lisa (bl. 9) yn llwyddiannus. Tipyn o gamp, ac aeth Sarah ymlaen i chwarae i dîm Gwynedd. Llongyfarchiadau i chwi i gyd.

### Pêl-rwyd

Bu pedair o ferched yr ysgol yn llwyddiannus i gael eu dewis i dîm Gwynedd, sef Rhiannon Jones (bl.8), Alaw Ceris (bl.8) Nia Wakeham (bl.9) a Ceri Jones (bl.9), ac fe aeth Alaw a Ceri ymlaen i dreialon Eryri. Cafodd Ceri ei dewis yn aelod o'r garfan a bydd yn chwarae ym Manceinion ar ôl y Nadolig. Da iawn genod a phob lwc yn eich gemau.



*Daniel Yates yn gorchuddio metel.*

## Profiad Gwaith Bl. 11

Yn ystod mis Hydref aeth disgyblion blwyddyn 11 allan ar brofiad gwaith. Unwaith eto cafodd y mwyafrif brofiadau gwerth chweil mewn amrywiaeth o leoliadau. Treuliodd Simon Chong wythnos gyda'r *Daily Post* yn Lerpwl a Charlotte Bellis yn mwynhau ei hun gyda'r *Western Mail* yng Nghaerdydd.


Er i rai deithio'n bell roedd y mwyafrif yn derbyn profiadau gyda chyflogwyr lleol. Mawr yw ein dyled i'r cyflogwyr hyn sydd bob amser yn barod i dderbyn disgyblion Ysgol Brynrefail.

## Steddfod yr Ysgol

Dyma sut oedd hi ar ddiwedd y noson:

1: Elidir; 2: Eilian; 3: Eryri; 4: Gwyrfai

Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.




*Siôn yn derbyn profiadau gyda "Pensel" Llanrug*



*Stephanie a Gethin yn "R.A.F. Valley"*



*Wili yn fodlon ei fyd yn chwilio am y cig gorau i un o gwsmeriaid "Cig Padarn", Llanberis.*

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**

CAPEL Y RHOS. Bore Sul, 19 Tachwedd cafwyd oedfa gysegredig yng nghwmni Côr Eryri dan arweiniad Mrs Sian Wheway, gydag aelodau o'r côr yn cyflwyno darlleniadau a gweddïau. Hefyd cafwyd cyfraniad gwerthfawr iawn gan barti o ieuenctid. Diolch yn fawr genod am oedfa fendithiol iawn.

Hefyd yn ystod y gwasanaeth pleidleisiwyd o blaid ein bod fel Eglwys yn ymuno ag Eglwys Cysegr i ffurfio gofalaeth dan ofal y Parch Dafydd Hughes. Edrychwn ymlaen mewn ffydd i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Falmai, Dylan a Gwawr, 2 Rhos Elan, Ffordd Bethel ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a phawb a fu mor garedig tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch yn fawr am y rhoddion hael iawn er cof am Gwilym.

LLONGYFARCHIADAU i'r Cynghorydd Charles Wyn Jones, Tyddyn Rhuddallt ar raddio o Goleg Diwinyddol Agored Cheltenham a Gloucester, wedi cwblhau cwrs pedair blynedd mewn Diwinyddiaeth. Urddwyd Charles yn seremoni graddio gyntaf y coleg ers ei sefydlu yn 1994. Cynhaliwyd y seremoni yn Neuadd y Dref, Cheltenham at 7 Tachwedd. Llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei benodiad yn Gynghorydd Rhanbarthol coleg Diwinyddol St. John's, Nottingham. Ei ddyletswyddau fydd cynghori ac annog myfyrwyr sy'n astudio diwinyddiaeth drwy'r dull 'dysgu o bellter'.

MARWOLAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at deulu y diweddar Owen Roberts (Now) 2, Hafan Elan. Fe frwydrodd yn galed iawn yn dilyn llawdriniaeth fawr ond anodd iawn fu'r wythnosau diwethaf o'i oes. Bydd colled fawr ar ei ôl.

GWAELEDD. Cofion gorau am wellhad buan i Mr Wil Roberts, Glan Moelyn a Mrs Enid Whiteside Thomas, Dolwar.

YSGOL GYNRADD

RHANNU GYDAG ERAILL. Dyna fu disgyblion yr ysgol yn wneud wrth lenwi bocsus esgidiau gyda rhoddion i blant llai ffodus na hwy.

YR URDD. Bu nifer o aelodau'r Urdd yn cystadlu yng Ngala Nofio yr Urdd ym mhwll nofio Bangor yn ddiweddar. Nofiodd pob un ei orau glas a daeth llwyddiant i Mari Deiniol, Blwyddyn 6 yn y dull nofio rhydd. Bydd yn awr yn cynrychioli Sir Eryri yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe ym mis Ionawr. Dymunwn y gorau iddi yno.

YMWELYDD. Cafodd Blwyddyn 2 y fraint o wrando ar Cathrin Aran yn dweud stori wrthynt yn ei dull arbennig ei hun.

Bu Blwyddyn 5 ar ymweliad pnawn yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis lle cafodd y plant gyfle i chwarae rôl morynion a gweision i wraig y peiriannydd yn y flwyddyn 1901. Yr actores yn cymryd rhan gwraig y peiriannydd oedd Rhian Cadwaladr. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael cyfle i dylino bara a 'llnau canhwyllau pres, a chael cyfle i holi'r actores am y cyfnod.

DYMUNA Anne Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, Llanrug ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, ac yna am yr ymweliadau wedi dod adre.

DYMUNA Mrs Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg, Nadolig hapus a Blwyddyn Newydd lwyddiannus i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa, i weinidog Capel y Rhos a'r holl aelodau, y cymdogion da a fu'n gyfeillgar ar hyd y blynyddoedd a Merched y Wawr. Daliwch ati.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605



- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

ARDDANGOSFA a FFAIR GREFFTAU
Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Sadwrn, Rhagfyr 2il
10.00 a.m. — 4.00 p.m.
Cyfle i brynu anrhegion Nadolig gwreiddiol a lleol
Pris Mynediad: £1
Elw tuag at Gronfa'r Sefydliad Coffa, Llanrug

Cofiwch siopa'n lleol y Nadolig hwn a chefnogi'n hysbysebwyr

BWS BACH AR LOG



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris
12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR
Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

NOSON GAROLAU. Ar nos Iau, 21 Rhagfyr cynhelir noson o ganu Carolau o amgylch y pentref gan blant yr Urdd, ac wedyn gorffen yn y Ganolfan tua 7.15, lle bydd paned a mins pei a siawns i bawb gael ymuno yn y Carolau. Croeso cynnes i bawb.

RHEILFFORDD ERYRI. Ddydd Gwener, 3 Tachwedd cafodd y plant sydd yn mynychu'r ysgol drwy'r dydd, sef 125 ohonynt, y cyfle i gael mynd ar drên bach Rheilffordd Eryri o'r Waun i Gaernarfon ac yn ôl. Cawsant i gyd fag o nwyddau er mwyn cael cofio'r achlysur. Roedd y plant wrth eu bodd ac wedi cael prynhawn bythgofiadwy. Diolch i bawb drefnodd y diwrnod ac am ei wneud mor llwyddiannus.

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref:
1. £40: Mrs Grace Dawson, 5 Bro Waun; 2. £25: Mr Alan Owen, 9 Tŷ Hen; 3. £10: Mr E. Jones, 15 Bro Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Dan lywyddiaeth Mrs Mair W. Williams, daeth yr aelodau ynghyd i Festri Capel Croesywaun bnawn Iau, 5 Tachwedd i gynnal y Cyfarfod Blynyddol. Darllenwyd y llythyr misol gan Mrs Anne V. Williams, yr ysgrifenyddes. Roedd y Sefydliad wedi ennill £43.50 yn y Clwb 100 a phenderfynwyd rhoi'r arian tuag at swyddfa newydd y Sir, yng Nghaernarfon. Cafwyd trafodaeth ar y prosiect 'Llwybr 2000' ac mae £10 wedi ei roi tuag at brynu mwy o fylbiau ar gyfer y Gofeb yn y pentref. Mae Gwilym Williams a Roy Jones yn garedig iawn wedi gwirfoddoli i'w plannu, ac mae'r Sefydliad yn ddiolchgar iawn iddynt hwy a Seiont Nurseries.

Aeth 5 aelod i'r Grŵp Eifionydd ym Mhorthmadog ar 17 Tachwedd ac mae tair aelod am fynd i'r Cyfarfod Carolau yng Nghricieth ar Ragfyr 8 pryd y bydd Mrs Anne V. Williams yn cymryd rhan. Cynhelir y Cinio Nadolig yn Blas y Waun, Antur Waunfawr ar ddydd Gwener, 8 Rhagfyr.

Mrs Pat Parry oedd y VCO yn y cyfarfoda chroesawyd hi gan y Llywydd. Cafwyd adroddiad am y gweithgareddau yn ystod y flwyddyn gan yr ysgrifenyddes a'r adroddiad ariannol gan Mrs Nancy Buckley, y Trysorydd.

Diolchodd y Llywydd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Ail etholwyd y canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd - Mrs Mair W. Williams; Is-lywydd - Mrs Hilda Williams; Ysgrifenydd - Mrs Anne V. Williams; Is-ysgrifennydd - Mrs Catherine A. Jones; Trysorydd - Mrs Nancy Buckley; Is-drysorydd - Mrs Mair Parry; Trefnydd y Rhaglen - Mrs Menna McDaid. Diolchodd y Llywydd i Mrs Pat Parry am ei gwaith yn llywio'r cyfarfod.

DIOLCH. Dymuna Mrs Rhiain Llywela Jones, 22 Tref Eilian ddatgan ei diolch i'r teulu, perthnasau, cyfeillion a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniodd cyn ac ar ôl ei llawdriniaeth yn yr ysbyty. Diolch i'r arbenigwyr, meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Dulas. Diolch i'r meddyg teulu, gweinyddesau cymunedol sy'n galw'n ddyddiol a'r gweithwyr cymdeithasol. Diolch yn fawr iawn i bawb gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda 2001.

DIOLCH. Dymuna Mrs Pat Parry, 1 Bryn Golau ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Lucy a David Lewis, Tegfryn ar enedigaeth mab bychan, Cai, brawd bach i Jack ac ŵyr bach i Sulwen a John Lewis, Bryn Golau.

Ganwyd mab bychan, Rhys, i Rachel a Mike, Stad Dôl Erddi, brawd bach i Richie a Ceri Ann.

Llongyfarchiadau i Trevor a Mildred Beech, Bronallt ar ddod yn daid a nain unwaith eto, ganwyd merch fach, Bethan, i Clive a Nerys.

BEDYDD. Yng Nghapel Croesywaun, gyda Kath Williams yn gweinyddu, bedyddiwyd Ashton, mab bychan Talina a David Coles, Gwynant.

Y Sul canlynol, yng Nghapel Croesywaun, gyda'r Parch Dafydd Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Aled Llwyd, mab bychan Nia a Garry Griffith, Stad Tŷ Hen.

DATHLU PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr a Mrs Gwynn Davies, Bryn Eithin a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

YMDDEOLIAD. Dymuniadau gorau i Mrs Pearl Williams, Parc ar ei hymddeoliad o'i swydd yn Ysgol Syr Hugh Owen. Dymuna Pearl ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd a'i hymddeoliad.

CROESO. Yn ystod yr wythnosau diwethaf daeth llawer teulu i fyw i bentref y Waun. Dymunwn bob hapusrwydd i chi yma yn ein plith.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod y mis gorfu i Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida, Mr R.W. Roberts, 9 Bryn Golau, Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt; Mrs Maud Jones, Ael y Bryn a Mrs Carol Lord, Bryn Hyfryd dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Croeso adref i bob un ohonoch a chymerwch ofal ohonoch eich hunain.

Bu Miss Eirlys Jones, Maelor yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth i'w llygaid. Gobeithio y byddwch yn gwella yn fuan.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Elena Jones, Miss Rhian Rowlands a Mr Richard Charge sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Dan Roberts a'r teulu, Sŵn y Gwynt yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Morris Lewis, Tŷ Newydd a fu farw'n ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Meirion, mab Mrs Williams, 18 Tŷ Hen ar ei ddyweddïad â Marian.



*Plant ysgol Waunfawr, Tachwedd 2000 – taith o'r Waun i Gaernarfon ar y trên.*

**FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU**

**Nos Wener, Rhagfyr 1 yn y Ganolfan**

**am 7 o'r gloch**

**Ymweliad gan Siôn Corn**
**Croeso i bawb**

## DRAENOG

Mae'n anodd i bawb ohonom gyfaddef ein bod yn mynd yn hyn. Ond mae gŵr a gwraig o Lanberis wedi darganfod yr union ffordd o gadw'n ifanc. Trefnu gwyliau ddaru nhw. Rwan ta, nid lle'r Draenog ydi datgelu oedran yr un o'r ddau, ond mae gen i **rhuw** syniad eu bod nhw yn nes at oedran gwyliau "SAGA" na "18-30". Ond efo'r criw iau yr aethon nhw ar eu gwyliau, gan honni "**Ir is a mistêc**". Ond chwarae teg i'r ddau, mae'n rhaid eu bod nhw'n edrych yn ifanc neu mi fydden nhw wedi cael eu hel adref.

**antur WAUNFAWR**

Noson Pwnsh a Mins Peis

Nos Wener, Rhagfyr 8fed,
6.30 o'r gloch

Siôn Corn

Anrhegion a chrefftau Nadolig

Cyngerdd i ddilyn am 8.30
CRASDANT - cerddoriaeth gyda offerynnau traddodiadol Cymreig

☎ 01286 650 721

www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

# *Fframia*

## GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

**Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd**

**Nifer helaeth o luniau ar werth**
**Dewis eang yn cynnwys:**
**IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN :: ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**

*(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

---

# Gwesty Dolbadarn

**LLANBERIS Ffôn: 870277**



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn, Rhiannon a'r staff**

---

**Am anrhegion y Nadolig dowch i Siop Nwyddau Tŷ a Gardd**

# FORMAG

**41A Stryd Fawr**
**Llanberis 872501**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
**Ifor a Margaret**
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



# E.W.Pritchard
## CENTRAL GARAGE
## Llanberis

**Ffôn: 870202 a 870272**

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

---

# Y Bistro

**LLANBERIS**
**Ffôn 871278**

**PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS**

Lle da i ddathlu eich achlysur arbennig,
Pen-blwydd, Atyniadau, Pen-blwydd Priodas ayyb
I bartïon o 12 – 40, Te bach £4.50
Bedydd o £5.00; Cinio Sul o £12.50
Ffoniwch Danny neu Nerys i drafod telerau
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco oddi wrth
**Annette, Gwyn a phawb yn**

teithiau PERIS travel

**Stryd Fawr**
**Llanberis**
**Ffôn: 872777**

---

## Cyfarchion Nadolig Llanberis



**Brysiwch i gael eich**
**TEGANAU, SIOCLED,**
**CARDIAU NADOLIG**
**AC ANRHEGION CAIN**
**yn siop**
**GWYNETH AC EIFION**
# ROBERTS
**CACENNAU NADOLIG**
**A BARA BRITH**
**TRADDODIADOL**

**COFIWCH FOD EIN CAFFI CEGIN ERYRI**
**AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN**

**NADOLIG LLAWEN**
**A**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA**
ODDI WRTH
# BECWS ERYRI
**STRYD FAWR**
**LLANBERIS 870491**

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

# LLANBERIS

**Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.**

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390**

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, Tachwedd 7 cynhaliwyd y cyfarfod misol yn Nhŷ Sant Padarn. Mrs Betty Humphreys arweiniodd y gweddïau agoriadol. Yn absenoldeb ein gwraig wadd (na allai fod yn bresenol o achos gwaeledd) cytunodd rhai o'r aelodau ddod a'u gwaith llaw i arddangos gwaith pwyth croes, siwmperi wedi eu gwau ac yn y blaen a chafwyd amser diddorol iawn yn sgwrsio amdanynt.

Cydymdeimlwyd â Mrs Sandra Hughes, y Rheithordy o golli ei llys-dad yn Henllan, Dinbych. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth o Lithoedd a Charolau fis Rhagfyr. Cytunodd Mrs Gwen Williams i roi y dorch ar y gofgolofn ar Sul y Cofio.

Mrs Betty Humphreys oedd yn atebol am y lluniaeth ysgafn a diolchwyd iddi hi a';r aelodau ddaeth a'u gwaith llaw gan Miss Glenys Parry, a Glenys oedd enillydd y raffl. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

COFION gorau at David Forrester-Addie, mab Awen Forrester-Addier, Hyfrydle, Stryd Warden sydd yn Kosovo am chwe mis gyda'r 'Royal Marines'. Dymunwn yn dda iddo. Brysia adre'n ddiogel, David.

PLAS PENGWAITH. Hydref 20 fe ddaeth Prifathro Ysgol Dolbadarn i ymweld â'r trigolion gyda rhai o ddisgyblion yr ysgol, sef Hywel a Mared. Rhodd o fasged o ffrwythau a dderbyniwyd gan yr ysgol a diolchwn yn fawr iddynt.

Dathlu ei phen-blwydd yn mis Rhagfyr fu Mrs Mair Hughes a dymunwn ben-blwydd hapus iddi.

Mae Mr Glyn Jones wedi dod adref o'r ysbyty. Croeso'n ol iddo.

Wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty bu Mr T.A. Pritchard, ac yn dal i fod yno mae Mr T.H. Williams. Mae pawb yn dymuno gwellhad buan iawn iddo.

Bu farw Mrs Maisie Lewis yn y Catref ar Hydref 24 ar ôl cyfnod byr o waeledd. Roedd yn 97 ac yn wreiddiol o bentref Llanberis. Cymeriad distaw; parchus bob amser. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth. Bu'r angladd ddydd Sadwrn, Hydref 28 yn yr Amlosgfa ym Mangor.

Marwolaeth drist arall oedd colli Miss Elisabeth Thomas o Ddinorwig gynt. Roedd yn gymeriad reit annibynnol a hoffus. Bu'n gweithio yn Ysgol Dinorwig ac roedd yn mynychu'r Eglwys yn Ninorwig. Bu'r angladd ddydd Mawrth, 7 Tachwedd yn Eglwys Llandinorwig.

Mae'r Cartref eleni wedi penderfynu gyfrannu at ddiwrnod Coffa y Rhyfeloedd wrth y gofgolofn ar Sul y Cofio. Mrs Shirley Davies oedd yn ein cynrychioli yn y Gwasanaeth Coffa.

Estynnwn groeso atom i Mrs A.M. Evans, Llanberis a Ms Sydney Williams, Cwm-y-glo.

Hoffai'r Swyddogion, Staff a thrigolion ddatgan eu diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ein cofnogi ni eto eleni drwy ein gweithgareddau, sef y Bingo; y Stondin Garnifal; Sêl Gist; gwerthu raffl; Edison Power a'r holl fusnesion yn y pentref am eu rhoddion i'r raffl.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newwydd Dda i bawb. Cofiwch bydd y Ffair Nadolig ar bnawn Sadwrn, Ragfyr 9. Bydd Siôn Corn yn y groto a thynnir y raffl.

CARNIFAL. Yn dilyn Pwyllgor Blynyddol Cyffredinol y Carnifal, penderfynwyd cynnal Wythnos y Carnifal o'r 13 hyd at Ddiwrnod y Carnifal, Gorffennaf 21, 2001. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Eric Baylis; Cadeirydd: Eurwyn Thomas; Trysorydd: Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Alan T. Jones. Gweddill aelodau'r pwyllgor ydyw Christine, Leslie, Debbie, Pat, Meinir, Alwyn, Arwyn, Gareth, Tristan, Hugh ac Iwan.

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN. Llywyddwyd cyfarfod misol y Gymdeithas nos Iau, Tachwedd 2 gan y Parch Gwynfor Williams yn absenoldeb Llywydd y Gymdeithas, Mrs Anne Parry-Jones, oherwydd gwaeledd. Mrs Audrey Evans arweiniodd yr aelodau mewn gweddi. Y siaradwr gwadd y mis yma oedd Mr John H. Hughes, cyn-ysgolfeistr Ysgol Dolbadarn a mwynahwyd orig ddifyr iawn yn ei gwmni dihafal yn sôn am gymeriadau oedd yn feistri ar ddweud ac yn wir yn byw eu celwydd golau. Diolchwyd iddo gan Mrs Dilys Roberts, a hi ynghyd â Mrs Buddug Hughes oedd yn gyfrifol am y baned de. Estynnwyd cydymdeimlad y Gymdeithas â Mrs Sandra Hughes a'r Rheithor, y Parch Philip Hughes yn eu profedigaeth yn ddiweddar, a dymunwyd adferiad buan i amryw o'r aelodau sydd yn wael. Llongyfarchwyd Mrs Moreen Lennon a'i phriod ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Roberts.

BORE COFFI. Cynhelir Bore Coffi'r Nadolig ddydd Mawrth, Rhagfyr 5 o 10.30am hyd 12.00 yn Festri Capel Coch. Yr elw at y Gymdeithas Lenyddol. Croeso cynnes i bawb.

CYFARCHION. Ni fydd Gordon Owen, 46 Maes Barcer yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond dymuna gyfarchion y tymor i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion. Bydd yn anfon rhodd i elusen lleol.

DYMUNA Anne Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, Llanrug ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, ac yna am yr ymweliadau wedi dod adre.

DYMUNA Ruth a Dafydd ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Miriam Catrin.

## Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau, 16 Tachwedd yn 'Angorfa' gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair. Derbyniwyd copi o gytundeb lês newydd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned ynglŷn ag 'Angorfa' a phenderfynwyd cael cyngor cyfreithiol cyn ei harwyddo. Oherwydd hyn, gohiriwyd unrhyw benderfyniadau ynglŷn â phrisiau am beintio tu allan yr adeilad nes bydd mater y lês wedi ei setlo.

Adroddodd y Clerc fod cyfarfod safle wrthi'n cael ei drefnu i gysidro cais y Cyngor Cymuned am gymorth o Gronfa CAE y Parc Cenedlaethol er mwyn gallu sefydlu llwybr troed o Nant Peris i'r Nant Ucha. Rhoddwyd ystyriaeth i dri chais cynllunio: adeiladu garej ddwbl ger Ael y Glyn, Ffordd Clegir; estyniad a gwelliannau i 1 Bryn Hyfryd, Ffordd Tŷ Du; ac ail osod gwifren drydan yn Nant Peris. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad, ond penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r broblem o afonig fechan yn gorlifo dros y ffordd yn agos i leoliad arfaethedig y garej ger Ael y Glyn.

Gwnaethpwyd newidiadau ychwanegol i reolau mynwent Nant Peris. Bydd ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd yn digwydd yn ystod Ionawr cyn i'r rheolau terfynol gael eu mabwysiadu.

**Cymorth Ariannol**

Gofynnir i fudiadau o fewn y gymuned sydd angen cymorth ariannol gan y Cyngor wneud eu ceisiadau erbyn dydd Gwener, Ionawr 5, 2001, gan gynnwys copi o'u taflen ariannol gyda'r cais. Dyma'r unig adeg o'r flwyddyn y gellir gwneud cais o'r fath, a bydd y penderfyniad ynglŷn â'r symiau terfynol i bob mudiad yn cael ei wneud yng nghyfarfod Ionawr o'r Cyngor.

Derbyniwyd gyda gofid y wybodaeth fod y toiledau cyhoeddus gyferbyn â'r lanfa yng nglan y llyn i'w cau dros y gaeaf oherwydd fandaliaeth.

Estynnwyd llongyfarchiadau'r Cyngor i drefnydd yr arddangosfa yn y Mynydd Gwefru ar waith y diweddar Neville Foulkes. Mae'n galonogol hefyd gweld arlunwyr lleol yn cael y sylw dyladwy gan y Mynydd Gwefru.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffygion i'r gwasanaeth bws i Nant Peris, a phenderfynwyd ysgrifennu i'r ddau gwmni i ddatgan hynny, yn ogystal ag i Gyngor Gwynedd.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau, 21 Rhagfyr, a rhoddir ystyriaeth i'r briseb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Seren Dan Gwmwl

### John H. Hughes

Y dydd o'r blaen euthum i weld arddangosfa arbennig iawn yn Oriel Mynydd Gwefru, Llanberis. Yr oeddwn wedi clywed cryn sôn a chanmol i'w arddangosfa.

Ni chefais fy siomi! Roedd y portreadau hynod, y golygfeydd unigryw, a'r cerfluniau cywrain, yn dystiolaeth o ddawn Neville Foulkes.

Rhyfeddwn at ei allu i gyfleu teimladau yn wynebau'r chwarelwyr; yr hiwmor, y tristwch, y lludded a'r gwroldeb. Yr oedd rhyw newydd-deb îr, cyfoesol i'w weld yn blaen yn yr holl waith.

Er nad wyf yn honni fy mod yn awdurdod o gwbl ar arlunio, cerflunio ayyvb, cefais wefr o syllu'n syn ar y cyfan gan sylweddoli drachefn a thrachefn at ddawn Neville.

Cofir amdano fel gŵr swil, tawel a chymeradwy gan bawb. Ymddiddorai yn y gelf o arlunio, cerflunio, yn ogystal â barddoni. Yn ddi-sŵn ar ei aelwyd gartref cynhyrchai waith rhyfeddol.

Ni hoffai Neville fod yn geffyl blaen o gwbl, ac ni feddyliodd erioed y buasai ei waith rhyw ddydd yn cael ei arddangos. Gwell ganddo oedd ymddiddori mewn encil gan ei ddiwyllio ei hunan o bleser a mwynhad.

Ie, Seren Dan Gwmwl fu Neville. Oherwydd ei swildod a natur di-rwysg ei gymeriad ni ddaeth enwogrwydd i'w ran a chadwodd ei holl dalentau yn y dirgel. Serch hynny, credaf ei fod yn un o fechgyn disgleiriaf Llanberis.

Diolch i Ken Jones am lwyddo i ddwyn sylw y cyhoedd i ddoniau arbennig Neville. Hefyd gwerthfawrogaf haelioni Cyngor Cymuned a Chyngor Canolfan Gymunedol Llanberis am ariannu'r arddangosfa.

Mae'n wir mai rhan fechan o waith Neville a arddangosir. Mawr obeithiaf y cawn gyfle eto yn y dyfodol i gael ein swyno gan ryfeddu at ei amryw ddoniau.

Melys, moes, mwy.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



Y LLE DELFRYDOL I BRYNU ANRHEG NADOLIG I'CH ANIFEILIAID ANWES

PET CARE TRUST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a James

**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE**

**& GROOMING SALON**

51 STRYD FAWR

LLANBERIS 870840



---

**Gwynedd Hotel**

**& Restaurant**

Llanberis 870203

*Cyfarchion y Nadolig oddi wrth Roger a'r staff, a dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd*

**RYDYM YN DAL I GYMRYD ARCHEBION AR GYFER PARTÏON NADOLIG**

**OND — BRYSIWCH NEU MI FYDD YN RHY HWYR!**

---

**DAFYDD OWEN**

**TRYDANWR**

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

National Inspection Council for Electrical Installation Contracting — NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**11 Rhes Faenol**

**LLANBERIS**

**Ffôn: (01286) 871680**

---



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Michal a Brigid Moran a'r plant**

**Sea Fresh Chip Shop**

Stryd Fawr

LLANBERIS

870425

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

**H.E. HUGHES A'I FEIBION**

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

**PAT A KEN**

**CREFFTAU FFERM**

**CAE COCH**

**STRYD FAWR, LLANBERIS**

**Ffôn: 870777**

GALWCH I MEWN AM ANRHEGION NADOLIG ANGHYFFREDIN

Diolch i bawb am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn




---

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU oddi wrth

**W.J. DAVIES**

***MODURDY'R WYDDFA***

**LLANBERIS Ffôn: 870225**



M.O.T.

**Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos**

Hefyd

**JOHN WHITE THE BODY SHOP**

**LLANBERIS**

**★Trwsio wedi damweiniau**

**★Ailsbreio**

**★Curo paneli**

## Rhagor o Newyddion LLANBERIS

DYMUNA Catherine Pritchard., 1 Dôl Eilian ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd, yr ymweliadau, galwadau ffôn, anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbythy ac ar ôl dod adref.

DYMUNA John Parry, 85 Maes Padarn ddiolch i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd pan oedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

DOSBARTHWYR. Diolch i Iolo Griffith ac Awen am eu gwaith yn dosbarthu'r Eco yn Nôl Eilian a rhan o Ddôl Elidir ers rhai blynyddoedd. Erbyn hyn mae Gareth Jones wedi cymryd drosodd. Diolch iddo yntau am ei barodrwydd i helpu.

CYDYMDEIMLAD. Cydymdeimlwn yn fawr â Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch a'r teulu o glywed am fawrolaeth cwbl annisgwyl eu hŵyr, Dewi yn bedair ar ddeg mlwydd oed. Anfonwn ein cofion at ei rieni, Arwel ac Alice, a'r teulu ym Mhenygroes gan ddymuno iddynt bob bendith a chysur yn eu colled fawr.

Y GYMDEITHAS. Mr Rol Williams, Waunfawr oedd y gwr gwâdd yng nghyfarfod y Gymdeithas Undebol yn Festri Capel Coch nos Fawrth, Hydref 3. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo am siopau Boots a Marks and Spencer. Llywyddwyd gan y Parchg John Pritchard a diolchwyd gan Mrs Vera Griffith. Daeth Mrs Nesta Jones, Pantglas atom nos Fawrth, Tachwedd 7 i roi peth o hanes gyrfa ei mab Bryn Terfel. Cafwyd noson ddiddorol yn ei chwmni. Gareth Jones oedd yn llywyddu a diolchwyd gan Mrs Mattie Hughes.

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch, **nos Iau, Rhagfyr 14**. Cyfarfod Nadoligaidd fydd hwn gyda Gareth Jones a'i gwmni. Cofiwch am y newid noson – nos Iau yn hytrach na nos Fawrth – ac mae croeso cynnes i rai nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas i ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig.

CAPEL COCH. Treuliodd rhai o blant yr Ysgol Sul ddwy noson yng Ngholeg y Bala ddechrau mis Tachwedd, a chafwyd hwyl fawr yno. Yr oedd rhaglen lawn wedi ei threfnu ar eu cyfer a chawsant gwmni plant o Rosllanerchrugog a Bangor. Aeth pedwar o'r athrawon a'r rhieni gyda hwy a chawsant hwy gyfle i drafod gwaith yr Ysgol Sul gyda Bryn a Nia Williams o'r Coleg.

DIOLCH. Dymuna Ruth a Dafydd ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Miriam Catrin

DIOLCH. Hoffai Dafydd Wyn Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ddiolch i'r holl deulu a ffrindiau am y cardiau ac arian ac anrhegion a gafodd are ddiwrnod ei fedydd, a hefyd ar ei ben-blwydd yn 1 oed.

DYMUNA'R Cynghorydd Trefor Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl etholwyr Llanberis a Nant Peris ac hefyd ddiolch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

**Llythyr o Ddiolch**

Carwn ddiolch o galon i staff a thrigolion Plas Pengwaith am y prynhawn annisgwyl, yr anrheg a'r blodau a gefais i gofio am y cyfnod y bûm yn gweithio ym Mhlas Pengwaith.

Carwn ddiolch i'r staff a fu'n gweithio gyda mi dros y blynyddoedd am eu cydweithrediad bob amser.

Nid penderfyniad hawdd i'w wneud oedd peidio dod yn ôl i Lanberis.

Hefyd, diolch i'r trigolion , eu teuluoedd a phobl leol Llanberis am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Yn gywir,
M. Mathews

## SIOE DEITHIOL BARA CAWS

Mae'r sioe glybiau eleni yn dilyn hynt a helynt Al a Dorothy, ei wraig, sy'n rhygnu byw ac yn ceisio achub eu busnes siop bapur newydd yng nghefn gwlad Meirionnydd. Cyflwynir sawl cymeriad newydd fel cwsmeriaid ag ati ynghyd â dychweliad rhai o'r hen selogion. Nid yw'r sioe yn addas i rai dan 18. Rhag siomiant rydym yn argymell fod pawb yn archebu tocynnau cyn gynted ag y bo modd, gan gofio fod tocynnau yn gwerthu allan ar gyfer y mwyafrif o'r canolfannau ymhell o flaen llaw!

Yr actorion *yw: Gwenno Elis-Hodgkins; Maldwyn John; Eilir Jones* a wyneb newydd i Bara Caws – *Tudor Owen.* Y cyfarwyddwr yw *Tony Llewelyn*.

Bydd 'Al a Dorothy' yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar nosweithiau Iau a Gwener, Rhagfyr 21 a 22. Os hoffech archebu tocynnau dylech gysylltu ar fyrder ag Aneurin ar (01286) 870277.

**BRYSIWCH!**
**Deunydd y Rhifyn Nesaf i'w anfon atom erbyn Rhagfyr 11**

**BORE COFFI**
**yn Festri Capel Coch**
**er budd**
**Y GymdeithasUndebol**
**Bore Mawrth, Rhagfyr 5**
**10.30 – 12.00 o'r gloch**
**Croeso i bawb**

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# DEISEB BETHEL

1 Tan y Ffordd
Bethel

Annwyl Olygydd,

Gwelaf i chwi gynnwys yn rhifyn 272, mis Tachwedd eleni, ar dudalen 12, newyddion ynghylch y Ddeiseb yma ym Methel. A dweud y gwir, roedd y Ddeiseb ag Argymhellion ynghlwm wrthi, sef dros ddeg ohonynt. Roedd hefyd ar gael Arolwg o'r drafnidiaeth yn y pentref.

Hoffwn felly petaech yn cynnwys fy Natganiad i'r Wasg a hynny yn ei grynswth, ac yn union fel y mae, yn rhifyn 273 sef mis Rhagfyr 2000 o'r papur. Hyn i gyd er mwyn i bobl Bethel a broydd Eco'r Wyddfa gael y darlun yn llawnach ynghylch y Dddeiseb, yr Agymhellion a'r Arolwg Trafnidiaeth ym mhentref Bethel.

Dafydd Guto
ar ran Mudiad 'Sbardun

**Datganiad i'r Wasg 07.11.2000 ynghylch y ddeiseb a'r argymhellion sydd ynghlwm wrthi: Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ym Methel**

Rhwng Medi 19-27 eleni danfonwyd y Ddeiseb, a manylion yn ei chylch at y canlynol: y Cynghorydd Huw Price Hughes; Heddlu Gogledd Cymru; Darpar Ymgeiswyr Seneddol; A.S. Arfon; Y Cynulliad, Y Swyddfa Gymreig: Selwyn Griffith, Clerc Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen; Geraint R. Jones, Prif weithredwr Gwynedd a Mr R.B. Daimond.

Deiseb yw hon a drefnwyd gan Fudiad 'Sbardun ym Methel ac a arwyddwyd gan 427 o bersonau.

Yn ogystal y mae **Argymhellion** ac **Arolwg Trafnidiaeth ym Methel 4ydd - 7ed Medi, 2000** ynghlwm wrthi.

Carwn i drigolion Bethel wybod fod yr Argymhellion, yn galw ar i Gyngor Gwynedd lunio polisiau byr a hir, (1 – 10 mlynedd ran eu gweithredu), ynghylch y canlynol:

1) y llwybrau ar y clytiroedd glaswellt gyferbyn â phrif adwy yr Ysgol Gynradd ym Methel, a'r angen diogelu cerddwyr ymhellach *drwy osod ffens bob ochr i ddechrau pob llwybr, a ffrâm yng ngheg pob llwybr, sy'n golygu nad yw cerddwyr yn rhuthro'n uniongyrchol-syth i'r briffordd B4409,* *neu* *greu croesfan pelican/sebra* ar y briffordd;

2) ail-newid geiriad arwyddion *Rhanbarth Gweirio Cyflymdra* ar y briffordd B4409, a chynnwys rhybuddion mwy effeithiol e.e. *Gyrrwch yn ddiogel: 30 m.yr.a.*;

3) symud yr arwydd a gynhwysir yn (2) uchod, sef yr arwydd ger y groesffordd ger Capel Cysegr, Bethel, i safle newydd, sef yr ochr draw i Erw Bian – fel y gall modurwyr a.y.b. arafu mewn da amser.

4) *ffurfio palmant / lle i gerdded* ar y rhandir glaswellt ar erchwyn y ffordd – o fynedfa Tyddyn Andrew Uchaf / Erw Bian yr holl ffordd i gysylltu â'r palmant a geir wrth safle aros bws yr ochr uchaf i'r fynedfa i'r Llythyrdy, a'r Stryd Newydd ym Methel;

5) *gosod plismyn distaw* yr oll o lonydd cefn, gan gynnwys y 'stadau ym Methel, Gwynedd;

6) ar y briffordd B4409 drwy bentref Bethel gosod y canlynol:

i) cyfarpar arafu traffig cyffelyb i'r hyn a geir yng Nghaernarfon ar briffordd B4409 ger Ysgol y Gelli – Ysgol Hugh Owen (Uchaf);

ii) blociau sgwâr ag saeth sy'n dynodi lle i aros cyn troi oddi ar y briffordd B4409 ym mhentref Bethel, Gwynedd;

7) gwella cyflwr y ffyrdd cefn a'r ystadau;

8) ystyried gydag barn trigolion sy'n byw ar erchwyn y ffyrdd cefn greu darpariaethau unffyrdd arbrofol ar y cychwyn, heibio'r Llythyrdy, ynghyd ag lleoedd addas i barcio moduron; yr un peth yn gymwys ag Stryd Newydd, gan roi'r hawl i breswylwyr barcio eu moduron ar un ochr i'r stryd; creu rhwystrau byrion tu allan i'r Llythyrdy, a Siop Treflyn, rhag i blant ieuainc fynd ar eu pennau i'r ffordd;

9) culhau'r ffordd gefn Llys Myfyr – Tref gof gan osod rampiau ar ei hyd, a chilfannau moduron i basio'r naill a'i gilydd; creu sefyllfa un ffordd?;

10) ar y ffordd gefn o Dref gof – heibio'r Wern, a Pherthi, creu cilfannau parhaol ar ochr y ffordd, er mwyn diogelu cerddwyr.

Y mae'r oll uchod yn cynnwys dyfeisiadau, a barn deisebwyr ym Methel. Ni fu i Drefnydd y Ddeiseb mewn unrhyw fodd geisio cynnig ei farn na'i gred yn y mater. Yn hytrach gwasanaethodd fel gwas y gymuned gan nodi ar bapur yr holl argymhellion sydd angen eu hystyried a'u cynnwys fel rhan o bolisiau tymhorau byr a hir Cyngor Gwynedd yn ei ymwneud â phentref Bethel. Hyd y gallwyf, os byw ac iach, addunedaf i ddal ati, fel y gwnes yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf y bum yn byw ym Methel, i wasanaethu'r hyn a ddeisyfodd y pentrefwyr, sef ar i Gyngor Gwynedd wella diogelwch ar y ffyrdd.

Dafydd Guto
Mudiad 'Snardun



CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



BRIAN A PHAWB YN SIOP

SPAR

LLANBERIS

Dewch atom am eich holl anghenion bwyd a diod Nadolig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth yr

*Alpine Lodge Hotel*



*(Bryn Gwyddfan)*

1 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: (01286) 870294



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



oddi wrth

BOB ac ANNIE KANE

Gwesty Erw Fair

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 872400

Chwilio am anrhegion Nadolig?
Galwch i'n gweld yn

SIOPAU MYNYDDA JOE BROWN

Menai Hall, Llanberis (01286) 870327
a Capel Curig (01690) 720205

★ Dillad o ansawdd da am brisiau rhesymol
★ Dewis eang o ddillad hamdden i'r teulu i gyd
★ Menyg, hetiau, scarffiau a throwsusau *fleece*
★ Esgidiau cerdded

Yr ydym yn cadw stoc o

★ Rab ★ Mountain Range ★ Scarpa
★ Marmot ★ Lowe Alpine ★ Merrell
★ Sprayway ★ Brasher
★ Stone Monkey a llawer

Parcio hwylus a chyfleus

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



joe brown

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Sue Lowe

odyn copr

66 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 871366

CELF Y COPÂON

*MOUNTAIN ART*

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

AM BRYDAU TSINEAIDD BLASUS I'W BWYTA GARTREF

LAKESIDE

CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

GARY A FREDA

THE GIFT BOX MINI MARKET


Alexandra House Newsagents

Stryd Fawr Llanberis

Ffôn 872354

Dewch atom am ddewis rhagorol o Anrhegion, Siocled a Bwydydd

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

# Rhagor o hanes Bethan Williams

**17/10/99**
Waw! Dw i'n ista ar y funud ar lan afon y 'Sun Kosi' ar ôl bod yn rafftio drwy'r dydd. Ma'r haul yn machlud, y bwyd yn cael ei goginio ar goelcerth, y 'rum' yn llifo a'r sachau cysgu wedi'u gosod o dan y sêr.

O'n i'n sâl bora 'ma! Hefo cwmni proffesiynol 'da ni wedi dod i rafftio a ma' nhw wedi dod a chogydd hefo nhw. Dim ond un peth sydd, ma'r cogydd yn licio ei ddiod... lot! Felly bob nos ma'r 'rum' yn llifo'n hael iawn! Yn rhy hael neithiwr! Ar ôl noson o ddawns a chân mi ddeffrais bore 'ma yng nghanol y traeth â llond berfa o dywod yn fy ngheg. Uch!

Ma' 'na 26 ohona ni wedi dod i rafftio i lawr yr afon. Mi gymerith saith diwrnod i ni ddod lawr yr afon drwy'r 'rapids' a'r 'whirlpools' anhygoel. Mi fyrstiodd ein rafft ni ddoe wrth iddo saethu am graig! Mae gen i rhyw arferiad ofnadwy o chwerthin pan ma' petha' fel'na'n digwydd a dyna nesh i ddoe hefyd. Roedden ni'n suddo'n slo bach ac roedd gofyn i ni i gyd rwyfo'n gynt i fynd i'r lan ond mi o'n i mor wan roedd o'n amhosib i mi rwyfo!

Heddiw, mi gafon ni ryfel ar y dŵr! Fel roedden ni'n anelu am don enfawr yng nghanol yr afon, mi ddechreuodd 'na rafft arall bledu cerrig atom ni. Digwydd bod, roedd un o reolwyr ein rafft ni yn dod o America a roedd y rafft arall yn protestio fod yr Americanwyr a'i debyg yn dwyn gwaith trigolion Nepal. Pwynt digon teg, ond ddim yng nghanol afon yng nghanol ton enfawr yw'r lle i brotestio. Unwaith eto, roedd angen rhwyfo fel gwallgofddyn i lawr yr afon i geisio dianc. Mae'n rhaid i mi gyfaddef, o'n i ofn.

Ond mae'r holl brofiad wedi bod yn gymaint o hwyl ac yn gyfle grêt i ddod i adnabod pawb yn well. Dw i'n teimlo mod i wedi'u nabod nhw ers oes. Mae o'n rhyfedd pa mor agos y gall criw fod a hwythau ddim ond yn adnabod ei gilydd ers ychydig dros fis.

Dw i am fynd i'r gwely yn gynt heno, wel i'r sach cysgu o dan y rafft. Mae gorwedd yn fy sach cysgu yn edrych i fyny ar y sêr yn gwerthfawrogi popeth yn deimlad anhygoel. Dw i wedi sylweddoli pa mor arbennig yw neiniau a theidiau, pobl rhyfeddol, llawn profiad bywyd.

**21/10/99**
Dychwelais o'r rafftio a chyrhaeddais Kathmandu. Deffrais bore 'ma ac roedd gen i boen diawledig yn fy mol. O'n i'n siwr fod rhywun wedi penderfynu coginio 'popcorn' yn fy stumog. Roedd o'n brifo, brifo lot. Yn y diwedd, roedd yn rhaid i mi lidio a mynd i'r ysbyty.

Prawf ar ôl prawf, doctor ar ôl doctor, prawf ar ôl prawf. Roedd y profion yn fwy poenus nag eistedd papur Lefel A Cymraeg! Wedi hir ymaros, daeth y doctor ata i gan ddweud, 'We don't want to give you a painkiller yet because we don't know if you need any surgery.' Aaarrrghhh!! 'Surgery?' No wê! Peidiwch a nghamddeall i, dim nad ydw i'n ymddiried yn noctoriaid Nepal, o na, ddim ishio mynd adra oeddwn i! O'n i'n gwybod fod cael triniaeth yn golygu y baswn i'n gorfod mynd adra, a do'n i'm ishio hynny!

Yna, diolch byth, fe roddodd y doctor dabled atal-poen i mi. Wedyn, mewn eiliadau fe ddiflannodd y boen. Un 'pop' enfawr yn fy mol ac fe ddiflannodd y boen afiach 'na. Gwyrth o Nefoedd Nepal!

# Chwaraeon Brynrefail

Yn amlwg, bu'r tywydd gwlyb diweddar yn gyfrifol am rwystro sawl gêm. Yn anffodus, gyda dyddiadau gemau Cwpanau Cymru mor gyfyng roedd yn rhaid mentro allan i'r llaid.

Yn y Cwpan dan 18 curwyd tîm Dyffryn Ogwen, ac yn awr wynebir Llangefni neu Amlwch yn y rownd nesaf. Yn y Cwpan -14 collwyd o 4-1 yn erbyn tîm cryf Pwllheli. Gobeithir chwarae gemau -16 yn erbyn Bryn Elian a -12 yn erbyn Emrys ap Iwan, Abergele yr wythnos hon.

I orffen gyda phêl-droed, mae bwriad i gael tîm merched. Yr hyfforddwr yw'r arch Evertonian Aeron Hughes, ac roedd yn ffyddiog pan ddaeth deg o ferched i'r noson ymarfer gyntaf.

Pythefnos yn ôl cynhaliwyd cystadleuaeth Nofio Ysgolion Cymru ym mhwll nofio Bangor. Roedd dau o ddisgyblion yr ysgol, Eifion Williams (bl.10) ac Iwan Parry Jones (bl.12) yn cynrychioli tîm Gwynedd. Yn y ras aml ddull 200m dan 15 oed daeth y Fedal Aur i Eifion, ac Aur arall yn y ras gyfnewid dull rhydd dros 200m. Cafodd Eifion ddwy fedal Arian hefyd, yn y ras dull rhydd 100m a'r ras gyfnewid 200m. Yn y ras dull pili pala i'r bechgyn hynaf roedd Iwan yn bumed.

Yn amlwg mae trefnu y fath gystadleuaeth yn ddibynol ar gyfraniad llawer. Roedd 14 o deuluoedd cylch yr ysgol yn barod eu cymwynas i roddi llety i 18 nofiwr o Ddyfed. Llawer o ddiolch am eu parodrwydd a'u cyfraniad.

*Y llun uchaf: Nia Wakeham, Alaw Ceris, Ceri Jones a Rhiannon Jones*

*Y llun isaf: Diana Roberts, Lisa a Sarah Williams a Claudia O'Donnell (Siân Green yn absennol)*






# Haf ar Enlli Paula Roberts

Haf ar Enlli
Paula Roberts
Wedi gwneud y penderfyniad i fynd i'r coleg, dyna ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn dod a hithau yn amser chwilio am swydd dros yr haf.

Trwy lwc glanio ar Ynys Enlli am 8 wythnos drwy Orffennaf ac Awst. Yn bennaf yn arwain plant, grwpiau ac unigolion ar deithiau tywys o gwmpas yr ynys a, phan oedd y gwynt yn rhoi trafferth a'r cwch yn methu croesi, helpu gyda'r torri gwair ac unrhyw beth arall oedd angen ei wneud ond, trwy'r cyfan, methu coelio fy lwc. Cael cyfle i wario cyfnod hir o amser mewn lle mor hudolus. I rywun sydd wedi aros ar Enlli dwi'n siwr eich bod yn gyfarwydd a'r profiad. I bawb arall, lle sy'n llawn cyferbyniadau.

Distaw o achos dim traffic a sŵn bywyd arferol ond, swnllyd iawn ar adegau. Ar nosweithiau tawel byddai'r morloi yn ein swyno gyda'u galwadau; ar nosweithiau tywyll, yr Adran Drycin fyddai'n ein cadw yn effro, yn hedfan yn ôl a blaen o'u bnythod tanddaearol. Heb sôn am y corn niwl!

Dydi Enlli ddim yn bell o'r tir mawr. Rhyw chwarter awr i ugain munud ar y cwch o Borth Meudwy ger Aberdaron, ond dim ond mewn ychydig fannau ar yr ynys y gwelwch Benrhyn Llŷn ei hun. Felly, mae'r teimlad o fod ar wahân ac i ffwrdd o'r tir mawr yn gryf iawn.


Mae nosweithiau heb leuad yn dywyll iawn ar Enlli. Dim goleuadau o gwbl ac eithrio ambell ganwyll, ond mae cannoedd os nad miloedd o sêr i'w gweld uwch eich pen. Wrth sefyll ar y mynydd un noson, gwelais sioe heb ei hail o fellt yn trafeilio i fyny arfordir Iwerddon.

Mae amryw yn mynd yno am lonyddwch ac amser i addoli, ond fel trigolyn mewn cymuned glos roedd rhywbeth ar dro drwy'r amser.

Wrth adael ddiwedd Awst cymysg iawn oedd fy nheimladau. Balch o fynd adref i weld teulu a ffrindiau ond mae gafael Enlli yn gryf ac mae'n lle sydd byth yn eich gadael. Mynd yn ôl fydd raid yn y dyfodol – am wyliau y tro nesa.


Os dymunwch chi ymweld ag Enlli cysylltwch â swyddfa Ymddiriedolaeth Ynys Enlli (01758) 730740.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**Wil, Cath, Jim, Carl, Willie a Renee**



**PADARN MEAT STORES**
**Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870319**
Hefyd cig o'r un safon uchel
yn Kwiksave, Caernarfon

**CYFARCHION Y TYMOR**
**i bawb yn yr ardal**
oddi wrth
**TRÊN BACH LLYN LLANBERIS**



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn**
**FFARM FÊL YR WYDDFA**
**STRYD FAWR, LLANBERIS**
**Ffôn: 870218**
Mêl
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

SWYDDFA'R POST
POST OFFICE
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**Mal a Debbie**
**SWYDDFA'R POST**
**36 Stryd Fawr, LLANBERIS**
**Ffôn: 870201**
Cofiwch fod ein gwasanaethau yn cynnwys **BANCIO PERSONOL A BUSNES** ar gyfer
ALLIANCE LEICESTER BARCLAYS Lloyds TSB
The CO-OPERATIVE BANK NATIONAL SAVINGS
- Talu biliau ● Yswiriant Teithio
- Arian Tramor ● *Parcel Force*
- Anrhegion a Darluniau Gwreiddiol
- Cardiau ac Anghenion Ysgrifennu

ac, wrth gwrs,
holl wasanaethau arferol Swyddfa'r Post

**DYMUNA MERVYN, DILYS a JENNIFER**
**CASTLE GIFT SHOP**
**LLANBERIS Ffôn: 870379**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth
**Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy**



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y gwesty.**
**Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.**

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

**Royal Victoria Hotel**
*wrth droed yr Wyddfa*

# O Garpiau i Garpedi: Nadolig y Chwarelwr

## Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
## Rhagfyr 3, 10 a 17

Dewch i Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis ym mis Rhagfyr i chi gael dianc rhag holl brysurdeb y Nadolig. Ewch yn ôl mewn amser yn nhai chwarelwyr Fron Haul o Dachwedd 25 i Ragfyr 22, pan fydd y tri thŷ cyfnod, yn ogystal â Thŷ'r Prif Beiriannydd wedi'u haddurno i adlewyrchu eu cyfnod hanesyddol, 1861, 1901 a 1969. Ar Ragfyr 3, 10 a 17, rhwng 1pm a 4pm, bydd cyfle i chi flasu bwydydd traddodiadol, gan gynnwys cnau castan wedi'u rhostio a chacennau cri, a bydd pob ymwelydd yn cael gwydraid o bwnsh AM DDIM.

Fel rhan o ddathliadau'r Nadolig, bydd yr Amgueddfa, am y tro cyntaf erioed, yn cynnal cyfres o weithdai wedi'u seilio ar weithgareddau traddodiadol, fel yr esbonia Julie Williams, Swyddog Marchnata yr Amgueddfa:

*'Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi ehangu ein rhaglen o ddigwyddiadau dros gyfnod y Nadolig, dan faner Nadolig y Chwarelwr, ac eleni bydd y rhaglen hon yn cael ei hymestyn ymhellach. Rydym yn awyddus i gynnig rhywbeth ychydig yn wahanol i bobl leol, gan roi cyfle iddynt ddianc rhag prysurdeb y Nadolig am ychydig.*

*'Mae gennym Fatiau Racs mewn dau o'r tai cyfnod, ac rydym wedi cynnal arddangosiadau o'r grefft hon yma cyn hyn, ond roeddem yn meddwl y byddai pobl yn hoffi rhoi cynnig arni eu hunain a chael cyfle i ddysgu mwy am y broses.'*

Cynhelir y Gweithdai Matiau Racs ar Ragfyr 3 a Rhagfyr 10 rhwng 1pm a 3pm. Gweithdai anffurfiol fydd y rhain, a byddant yn rhoi cipolwg ar y grefft o wneud matiau racs a oedd mor boblogaidd mewn tai yng nghyfnod oes Fictoria. Yn draddodiadol, fe'u gwneid o ddarnau o hen ddefnydd a dyma'ch cyfle chi i roi cynnig ar wneud mat diodydd bach i fynd ag ef adref gyda chi. Codir tâl mynediad arferol yr Amgueddfa.

*Plant a phobl dros 60 oed AM DDIM. Oedolion £3.50. Cynghorir chi i drefnu ymlaen llaw.*

Cynigir gweithdy arall hefyd, sef Gweithdy Blodau'r Nadolig ar Ragfyr 17 gyda Pat Jones, Crefftau Cae Coch. Dyma'ch cyfle i wneud trefniant blodau ar gyfer diwrnod Nadolig gan ddefnyddio planhigion tymhorol.

*Cost: Oedolion – £5.50. Plant a phobl dros 60 oes – £2.00. Darperir yr holl ddefnyddiau ar eich cyfer. (Mae'n rhaid trefnu ymlaen llaw). (I gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu â Julie Williams ar Ffôn:(01286) 870630. Ffacs: 871906. e-bost:wsmpost@btconnect.com*

**Amgueddfa Lechi Llanberis**
**NOSON CAWL A CHÂN**
Rhagfyr 6ed am 7 o'r gloch

Noson o ganu Nadoligaidd yng Nghwmni Côr Eryri
Bydd powlen o gawl cartref ar gael i bob canwr.

£2 y person
Rhaid bwcio ymlaen llaw

Un o'r llinellau a dderbyniwyd i orffen y pennill hwn yn Eisteddfod Waunfawr:

"Mi anghofiais fy mhyjamas,"
Meddai Siôn, yn ôl yr hanas,
"Nefoedd fawr,' medd Siân mewn dychryn,
"Mae nghoban inna'n Siambar Selwyn".

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**



*Mae digonedd o adloniant i blant yn y Ffair Gaeaf.*



*Siôn Corn yn cyrraedd yr Amgueddfa.*

# Ymgeisydd Seneddol



Mae'r Blaid Lafur wedi dewis eu darpar ymgeisydd seneddol ar gyfer Etholaeth Arfon. Daw Martin Eaglestone yn wreiddiol o West Bromwich, ond mae wedi byw a gweithio yn lleol ers rhai blynyddoedd. Mae'n byw yn Y Felinheli ar hyn o bryd. Mae'n briod a chanddo bump o blant. Erbyn hyn mae'n Swyddog Polisi gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae wedi bod yn weithgar gyda gwaith Undebau Llafur ac wedi cynrychioli'r undeb UNSAIN ar lefel leol a Chymreig a Phrydeinig.


**Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol**



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
**CHWI** yn ei yrru,
o Audi i Zastava

AA Specialist · MOT · RAC Selected · Retail Motor Industry Federation

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £££ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...




**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: (01286) 675175 a 677858**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**
**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**
Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol
**Adloniant
Nos Sadwrn**
Canu Cymraeg
efo'r Organ

## Y Canmlwyddiant

20 Marine Drive
Rhyl
Sir Ddinbych LL18 3AY

Annwyl Olygydd,

Fel yr addewais, rwy'n anfon yr erthygl yma atoch. Edrychais ymlaen am fisoedd i'r canmlwyddiant yma, ac ni chefais fy siomi. Mwynheais yr arddangosfa, cinio Fictoria, Gwasanaeth Capel Coch a noson Hen Atgofion. Rhaid cyfaddef mai noson Hen Atgofion ddaeth yn binacl y pen-wythnos i mi. O'r chwe siaradwr cefais gysylltiadau â phump, efallai fy mod yn rhy hen i'r Doctor, ond rwy'n cofio ei ewythr, Moi Bara. Yn anffodus ni chafwyd cyfle i adrodd hanesion ar ddiwedd y noson. Ond dyma ddwy oedd gennyf yn barod.

'Ennill ar yn ail' – dyna a ddigwyddai i mi ar yr adrodd o'm Heisteddfod gyntaf un yn 1952. Pwy enillodd? Sherington, a minnau y flwyddyn ganlynol, ac felly y bu hyd nes daeth hi'n 1958 – Hwre! Sher wedi gadael a chefais y gamp lawn. Ennill ar adrodd Saesneg a Chymraeg. *Dan y Wenallt* gan Dylan Thomas a 'Berwi Wy', detholiad allan o'r nofel *O Law i Law* gan T. Rowland Hughes – cyn ddisgybl.

Mae'r ail 'atgof' yn mynd a fi yn ôl i'r mis cyntaf yr es i Ysgol Brynrefail, Medi 21, 1951. Sgwrsio a chyfathrebu amser chwarae bore a chyfnewid brechdanau a alwyd yn *lunch* yr adeg hynny. Cefais un jam mefys gan fy ffrind bore oes, Nan Madryn, a cherddais yn hamddenol braf i fyny allt fechan heibio'r cwt gym. Yn sydyn, teimlais bigyn yn fy nhafod – poerais allan ac yno, yng nghanol y frechdan, roedd gwenyn meirch marw, a'i golyn yn fy nhafod. Gwaeddodd rhywun 'Mi wnei di farw,' a rhedais nerth fy nhraed i'r tai bach yn ddagreuol a cheg agored. Daeth llais cyfarwydd fy chwaer, Gwyneth, o fewn eiliadau, yn mynnu i mi agor y drws. Gwrthodais siarad na llyncu fy mhoer. Y peth nesaf, roeddwn yn ystafell yr athrawon a Miss Parri (Biol) wrth y llyw a Miss Lewis (French) gyda'r twisars. Ni fu llwyddiant gyda rheini. Felly rhaid oedd mynd yng nghar Miss Parri i Llanbêr i weld y meddyg. Cefais rhyw gyffur ganddo a dychwelyd yn ôl i Fryn Coch, yn dal gyda'm tafod yn hongian allan. Beth feddyliech ddywedodd Miss Parri wrthyf, 'Rwyt ti'n hogan lwcus iawn, wedi cael tynnu tafod ar yr holl athrawon yn y tair wythnos gyntaf, heb i neb dy geryddu.' Pwy fedrai anghofio hyn?

Flynyddoedd yn ddiweddarach, pan welwn gyn-ddisgyblion o'm cyfnod, roeddynt i gyd bron yn cofio hanes y gwenyn meirch.

Diolchaf i bawb a fu ynglŷn â'r dathlu. Bythgofiadwy yn wir,

Yn gywir iawn

Menai (Pritchard) Ellis
1951-58.
Bryn Coch (Glanfa)
Llanrug gynt.

## APÊL

Cyhoeddir rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa ddydd Mercher, Rhagfyr 20.

Er mwyn hwyluso gwaith y Wasg a'r Golygyddion mae angen i'r deunydd ddod i law erbyn nos Lun, **Rhagfyr 11.**

Gwyddom bod yr amser yn brin ond ymddiheurwn ymlaen llaw na allwn addo cynnwys unrhyw ddeunydd a fydd yn cyrraedd wedi'r dyddiad hwn, **Rhagfyr 11.**

Diolch am eich cydweithrediad a diolch ymlaen llaw i Wasg Gwynedd am ei chydweithrediad hithau.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop
**HAIRLINES**
**Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328**

**Padarn Lake Hotel**
NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
i chi oll
oddi wrth **TERRY
VAL, LUCY A'R STAFF
LLANBERIS, Ffôn: 870260**
Prydau arbennig ar gyfer y Nadolig

**Mae'r Nadolig yn nesau. Archebwch eich coed, rîthau celyn, addurniadau bwrdd, blodau ffres ac anrhegion blodau rŵ an.
Ffrwythau a llysiau ffres ar gael fel arfer hyd nos Sadwrn cyn y Nadolig. Defnyddiwch eich siop leol – mae'n llawer mwy cyfleus!**
**'STAR'**
**Ffrwythau, llysiau a bwydydd iach
57 Stryd Fawr
Llanberis 870555
Hoffai Marian ddymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB
ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, na Dydd Calan, 1 Ionawr 2001
Gwasanaeth Sul (bysus yn y dydd yn unig) ar 24 a 31 Rhagfyr
Gwasanaeth arferol 23, 27, 28, 29, a 30 Rhagfyr**

## CROESAIR RHAGFYR



**Math o 1 ar draws ydy pob un o'r geiriau sydd heb gliwiau iddynt.**

**Ar Draws:**

6. Cwch Sinbad y Llongwr?(3)
8. Ceirw benywaidd! (6)
9. Clir, fel nant y mynydd (5)
10. Dyn anferth (4)
12. Ennaint i dair feddw? (5)
13. Anweddus (6)
14. Symudiad cyflym (4)
17. Un sy'n erfyn i ŵr Bes, Dei gallio! (8)
19. Nain yn afreolus o gwmpas dechrau Hydref, ie, afreolus! (8)
21. Tageidiau (8)
24. Anifail sy'n amharod i ollwng yr hyn sydd yn ei geg (8)
27. Rhydd corgi dro o gwmpas wrth chwyrlïo (8)
30. Plisgyn sy'n creu syndod! (4)
32. Mae lamas digrif yn ddigrif! (5)
33. Gwgu wrth weld dyn yn dianc i Bontnewydd (4)
34. Lle agored mewn tref neu bentref (5)
36. Naill ai… (3)
37. Cynnyrch glas y bonc (5)
38. Llau defaid (7)

**I Lawr**


1. Datganiad yw her Aida… (7)
2. … ac yma mae Lolita feddw yn ymwrthodol (9)
3. …a deuawd flêr, heb ddechrau i'r Alto, medda' nhw (5)
4. Â choesau cam! (6)
5. Yr ynys fwyaf yn Ewrop (7)
6. Y rhai sy'n paratoi grawn i wneud diod (7)
7. Metel o haearn wedi ei gymysgu â charbon (3)
11. Padlo cwch fechan, gul, efo blaen a chefn main (6)
16. Sadwrn, efallai, i ddyn y canolwr! (6)
18. Gall 1 ar draws wneud hyn, ond nid 33 i lawr (6)
20. Tywyllwch hollol (5)
22. Yli, moch yn glanhau!!! (6)
23. Esgyniad, megis Crist i'r Nefoedd (9)
28. Sarn mewn dydd arbennig yn datgelu cadfwyeill (7)
29. Egroes (6)
32. Meinciau yr orsedd aur? (5)
33. Anifeiliaid brathog? Mae 24 ar draws yn enghraifft (3)


## Atebion mis Hydref

Derbyniais dros ugain o atebion i groesair mis Tachwedd ac, er iddi gwyno ei fod yn mynd yn anoddach bob tro, ateb Margaret Wyn Roberts, Rhedynog, Ffordd Bethel, Caernarfon LL55 1HB a ddaeth allan o'r het, ac iddi hi yr aiff £5 y mis. Gobeithio y bydd mewn pryd i helpu â'r siopa Nadolig!

Nan Owen, Llanberis; Eluned Jones, Trefor; E. Eirwen Roberts, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Rhiannon Pirtchard-Jones, Jennie Williams ac M.P. Jones, Clynnog; I. Jones, Borth y Gest; Eirian Roberts, Llanrug; Gwen Davies, Neston; Ceridwen Williams, Llanrug; Moreen Lennon, Llanberis; M. Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Olwen Jones, Bethel; Olwen Owen, Llanberis a Nansi Davies, Rhuthun oedd y rhai eraill y derbyniais ymateb ganddynt, a diolch i chi bob un am eich dyfalbarhad. Gwn am nifer o ddarllenwyr eraill sy'n cwblhau'r croesair bob mis ond heb ei bostio – rhowch gyfle i chi eich hunain!

Rwy'n credu fod croesair Rhagfyr yn anoddach eto, ac ar ôl ei gwblhau gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE.



Mae staff Mynydd Gwefru

yn dymuno

Nadolig Llawen a

Blwyddyn Newydd

*"Gwefreiddiol"*

i holl ddarllenwyr

*Eco'r Wyddfa.*

**Arddangosfeydd** (tan y Nadolig)

Oriel Elidir: **John Neville Foulkes**

Oriel Peris: **Grwp Celf Ynys Môn**

Oriel Padarn: **Trefor Baker**

Oriel Eryri : **'BBC Wildlife Photographer of the Year'**

**Anrheg Nadolig!**

Mae Bistro Connections yn cynnig ***ail-lenwad o goffi ffilter am ddim***, a gwnewch yn siwr eich bod yn manteisio ar ***ddisgownt o 10% yn y siop*** drwy ddangos yr hysbyseb yma. (tan Rhagfyr 23)

**Cyngerdd Nadolig**

Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni am 2 o'r gloch brynhawn Ddydd Sul, Rhagfyr 17fed yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris, Côr Eryri a Seindorf Deiniolen. ***Mynediad am ddim.***

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.

EDISON MISSION ENERGY

An EDISON INTERNATIONAL℠ Company

# CHWARAEON

## Tlysau i'r Fro Eto



*Dilwyn Roberts, dirprwy-Brifathro Ysgol Brynrefail yn cyflwyno Tlws "Merch y Flwyddyn" Arfon i Lucy*

Mae gan fro'r Eco record anhygoel pan ddaw yn amser rhannu'r tlysau yn Noson Wobrwyo Cyngor Chwaraeon Arfon. Daeth dau o'r prif dlysau draw eleni.

O flaen torf dda yng Ngwesty'r Celt, dyfarnwyd tlws *Chwaraewr y Flwyddyn* i Colin Donnelly, y Sgotyn 41 oed sy'n byw yn Ninorwig ers sawl blwyddyn bellach. Yr oedd yn enillydd poblogaidd iawn, gyda record anhygoel o lwyddiannau ym myd y rhedeg mynydd a thraws gwlad. Diolch i Dafydd Whiteside Thomas am ei erthygl o deyrnged i Colin. Bu Dafydd yn gyd-aelod a chyd-redwr gyda Colin yn lifrau Rhedwyr Eryri am sawl blwyddyn.

Un pwynt diddorol eto eleni oedd yr ystod eang o gampau, a safon aruchel yr unigolion sy'n ymwneud â champau yn ein bro erbyn hyn. Syndod oedd gweld nad oedd yr un enwebiad o fyd pêl-droed.

Dyfarnwyd Tlws *Geneth y Flwyddyn* i Lucy Stephens, 15 oed o Lanrug a disgybl yn Ysgol Brynrefail. Mae Lucy yn aelod blaenllaw o Glwb Gymnasteg Eryri. Wrth ei llongyfarch hi a Colin, dymunwn yn dda i'r ddau pan fyddant yn cystadlu yn Noson Wobrwyo Gwynedd.

Diolch i Lucy hefyd am ei pharodrwydd i ysgrifennu erthygl fach yn croniclo ei datblygiad a'i diddordeb ym myd Gymnasteg.

"Dechreuais ymwneud â Gymnasteg pan oeddwn yn 4 oed. Roedd y teulu yn byw yn Lloegr yr adeg hynny. Pan symudodd y teulu i ardal Llanrug, fe ymunais â chlwb Gymnasteg Eryri, sy'n cyfarfod yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Rydym yn ymarfer fel clwb dair gwaith yr wythnos. Awr a hanner ar y Sadwrn a dwy awr ar nos Fawrth yng Nghaernarfon. Mae sesiwn hirfaith o 5 awr yn ein hwynebu ar y Sul ym Mhlas Silyn ym Mhenygroes. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod mwy o gystadlaethau erbyn hyn, ac mae'r safon yn gwella bob blwyddyn.

Bu blwyddyn 2000 yn un llwyddiannus iawn i mi gan i mi gael cydradd gyntaf ym Mhencampwriaeth Eryri. Cefais fy newis i gynrychioli Gwynedd, ond oherwydd damwain i fy mys roedd yn rhaid i mi dynnu allan.

O fod yn ail yng nghystadleuaeth clwb, cefais gystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru. Dyma fy mherfformiad gorau hyd yma, gan i mi gipio'r Fedal Aur yn y gystadleuaeth unigol, a chipio'r Aur fel aelod o'r tîm buddugol.

Nid yn unig rwy'n hoffi cystadlu ond rwy'n gobeithio hefyd arbenigo ym maes hyfforddi. Rwyf eisoes wedi mynychu cyrsiau gan gynnwys un cymorth cyntaf, ac rwyf yn awr yn cael hyfforddi Gymnasteg i blant i fyny i lefel 4 a 5. Pan fyddaf yn 16 gobeithiaf gael swydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon fel y gallaf gael mwy o brofiad ym myd hyfforddi.

Diolch i bawb sydd wedi fy helpu ym myd Gymnasteg ac i aelodau o'r clwb am fy enwebu ar gyfer *Tlws Geneth y Flwyddyn.*



*Carfan Llanberis am y tymor 2000 – 2001.*

## Tîm Newydd i'r Ardal



*Tîm dan 17 Deiniolen.*

Trist mewn un ffordd yw nodi mai dim ond Llanrug, o'n prif dimau, sy'n cynnal ail dîm eleni. Braf cofnodi fod bwriad yn Neiniolen i ail gyflwyno ail dîm mewn tymor neu ddau.

Y sail i hyn yw sefydlu tîm dan 17 yn y pentref. Hyd yn hyn bu'r tymor cyntaf yn lled llwyddiannus. Am ryw reswm ni dderbyniwyd y tîm i Gynghrair Aberconwy a'r Cylch, ble mae timau Caernarfon a chylch Bangor yn chwarae. Oherwydd hyn, bu'n rhaid i'r bechgyn ymuno â Chynghrair Môn. Mae hon yn gynghrair 'gystadleuol', ac aml i grachen yn dod i'r wyneb mewn gemau rhwng rhai o dimau'r ynys. Gallwn ddychmygu y 'croeso' y mae'r 'tramorwyr' o Ddeiniolen yn ei dderbyn wedi croesi'r bont, ond fel y dywedodd un o chwaraewyr Deiniolen wrthyf, "Mae nhw yn gorfod dod i Lanbabs, cofia!"

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn y trydydd safle yng Nghynghrair Môn. Chwaraewyd 9 gêm, gan ennill 5, colli 3 ac un gêm gyfartal. Sgoriwyd 32 gôl ond ildiwyd 23, sy'n awgrymu mai rhyw gêm gyflym, ffwrdd-a-hi mae'r tîm yn ei chwarae. Gyda phrofiad fe ddysga'r bechgyn sut i newid tempo gêm a bod yn fwy tynn yn eu hamddiffyn. Gan fod blwyddyn arall gan fwyafrif y garfan yn yr oedran yma, mae'n argoeli'n dda i'r clwb.

Uchafbwynt y tymor hyd yn hyn oedd curo Bae Trearddur o 8-0, a nhw oedd pencampwyr llynnedd.

Fe welais y tîm yn chwarae ar fore Sadwrn glawog a gwyntog yn erbyn tîm ieuenctid Cei Connah. Braf gweld tîm o Gynghrair Cymru gyda thîm ieuenctid 'lleol'. Roedd bechgyn y Cei yn rhy gryf a phrofiadol i Ddeiniolen, a chollwyd y gêm – yng Nghwpan yr Arfordir – o 4-1. Serch hynny, mae digon o ysbryd yn y tîm a digon o chwaraewyr addawol i greu cnewyllyn o dîm safonol.

Diolch i Eifion, y rheolwr, am ei amynedd a'i frwdfrydedd gyda'r bechgyn. Gobeithio y caiff gefnogaeth, o sawl cyfeiriad, a c y gwelwn y tîm ieuenctid yma yn adennill yr hen hwyl a llwyddiant a gysylltir â Deiniolen.

---

*(parhad o'r dudalen flaen)*

Nid yw gofod yn caniatáu rhestru ei holl orchestion ym myd rhedeg. Digon yw dweud iddo ennill pencampwriaethau traws gwlad gogledd Cymru fwy o weithiau nac unrhyw redwr arall. Ef hefyd oedd yr aelod cyntaf o Glwb Rhedwyr Eryri i ennill Ras yr Wyddfa. Eleni, enillodd Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain dros 40 oed. (Mae eisoes wedi bod yn bencampwr Prydain dair gwaith yn barod.) Enillodd Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru a'r bencampwriaeth i rai dros 40 oed.

Ond mae'n debyg mai'r hyn sy'n rhoi mwyaf o bleser iddo yw'r 'rasus' ble mae'n cystadlu ar ei ben ei hun. Efallai fod hyn yn swnio'n od iawn i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â sialensau rhedeg mynydd, ond mae rhai 'cylchoedd' o gribau a mynyddoedd sy'n cael eu cyfrif yn glasuron, ac yn aml yn golygu gormod o amser i'w trefnu fel rasus i nifer o redwyr. Yn hytrach, bydd rhedwyr unigol yn eu herio ar gyfnodau arbennig o'r flwyddyn, gan geisio eu cwblhau yn yr amser cyflymaf. Mae Colin yn arbenigo yn y math hwn o redeg, ac yn dal y record am nifer helaeth o'r clasuron hyn. Rai blynyddoedd yn ôl rhedodd o'r traeth yn Nant Gwrtheyrn i gopa'r Eifl, ac yna ymlaen ar hyd y Gyrn Goch, ar draws gwlad i Grib Nantlle, croesi i'r Wyddfa, yr Elidir ac ymlaen dros y Carneddi nes gorffen ar y traeth yng Nghonwy!

Mae hefyd yn dal y record am redeg copaon 3,000 troedfedd Eryri – a hynny mewn cwta bedair awr, nôl yn 1988. Mae'r mwyafrif o gerddwyr angen tua 18 awr i gwblhau'r gamp hon.

A'r hyn sy'n ddychryn i redwyr iau yw nad oes arwydd o arafu yn perthyn iddo ac yntau'n ddeugain oed.

**Nadolig Llawen i holl dimau yr ardal**